# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 10FED MAI, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 01/05/18)

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**AELODAETH (19)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Aled Ll. Evans | Aled Wyn Jones | Charles Wyn Jones |
| Huw Gruffydd Wyn Jones | Berwyn Parry Jones | Peter Read |
| Paul John Rowlinson | Cemlyn Rees Williams | Gethin Glyn Williams |
| Sedd Wag | | |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Richard Medwyn Hughes |
| Dewi Wyn Roberts | John Pughe Roberts |
| Angela Russell | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Alwyn Gruffydd

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag

## Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2018/19.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2018/19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018, fel rhai cywir.

**7. CYNLLUN ARCHWILIO ALLANOL**

Cyflwyno adroddiadau yr archwiliwr allanol.

**(A) CYNGOR GWYNEDD** 11 - 38

**(B) CRONFA BENSIWN GWYNEDD** 39 - 50

**8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 29/1/18 - 31/3/18** 51 - 87

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2017/18** 88 - 104

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 8/2/18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Huw G. Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitemau 5 - 8 ar y rhaglen), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 9 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans a Charles Wyn Jones.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017, fel rhai cywir.

## 3. CYLLIDEB REFENIW 2017/18 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018.

Nododd, ar y cyfan, roedd adolygiad trydydd chwarter o'r cyllidebau yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond roedd cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adrannau Addysg, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2018.

Tynnodd sylw at benderfyniad y Cabinet:

"Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2017) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad / rheolaeth.

Penderfynwyd i gynaeafu (£270k) o danwariant Gostyngiad Treth y Cyngor, (£12k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£803k) o ganlyniad i dderbyniad grant ac amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i

gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gydag elfen ohono ar gyfer digolledu effaith gorwariant posib ar gludiant tacsis ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn."

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion a'r Aelod Cabinet i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Mewn cyd-destun, gwariant gros dros £5m, nid oedd y gorwariant o £198,000 o dan y pennawd 'Arlwyaeth a Glanhau' yn yr Adran Addysg yn swm enfawr. Roedd y Cyngor wedi penderfynu darganfod arbedion drwy godi pris prydau ysgol er mwyn cynyddu incwm, adlewyrchir yn y ffigyrau bod yr incwm yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn hytrach na bod gorwariant;
- O ran y gorwariant o dan y pennawd 'Cludiant' yn yr Adran Addysg:
    - Cynhaliwyd trafodaethau hefo'r Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd o ran datrysiadau amgen yn hytrach na defnyddio tacsis i gludo disgyblion i ysgolion. Gan fod y gorwariant yn anochel fe drosglwyddir arian pontio i'r Adran Addysg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
    - Bod diffyg yn incwm gwerthiant tocynnau cludiant ôl-16, o ganlyniad i gost tocyn yn cynyddu roedd rhai disgyblion/myfyrwyr yn gwneud trefniadau amgen. Anfonir sylw aelod os oedd cyswllt rhwng y diffyg incwm â newid ym mholisi Cludiant ôl-16 y Cyngor i gyfradd unffurf am docyn, at y Pennaeth Addysg;
- Byddai'n rhaid i'r aelod gysylltu efo Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cadarnhad o ran i le y gwerthir deunydd ailgylchu. Eglurwyd bod y prisiau a dderbynnir am ddeunyddiau ailgylchu wedi gostwng yn sylweddol;
- O ran y gorwariant o dan y pennawd 'Lleoliadau All-Sirol' yn yr Adran Plant a Theuluoedd, bod y Cyngor yn ceisio datrysiadau lleol ond bod rhai plant gydag anghenion mwy dwys angen eu lleoli mewn lleoliadau arbenigol. 'Roedd yn faes lle'r oedd holl Gynghorau Gogledd Cymru yn gorwario gydag arbenigwyr yn y maes yn ystyried os gellir darparu cefnogaeth arbenigol ar y cyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

**4. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018. Nodwyd bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £30.6m yn 2017/18, gyda £5.8m ohono wedi ei ariannu trwy ddenu grantiau penodol. Tynnwyd sylw bod cynnydd o £0.776m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad ail chwarter.

Holodd aelod, o ystyried mai 51% oedd y gyfran oedd wedi ei wario yn 9 mis cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol, os rhagwelir mwy o lithriad yn y rhaglen gyfalaf? Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid ei fod yn ffyddiog y byddai swmp o'r arian wedi ei wario yn unol â'r rhaglen gyfalaf, ond pe byddai arian yn cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 2018/19 ei fod yn hyderus na fyddai'n golygu colled ariannol i'r Cyngor. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod grant pellach o £1.8m ar gyfer gwella priffyrdd wedi ei dderbyn ers cyhoeddi'r adroddiad a bod trefniadau mewn lle gan Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i wario'r arian. Eglurodd yn arferol bod gwario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol yn weddol drwm.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed llithriad gwariant o dan y pennawd 'Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)' i flwyddyn ariannol 2018/19, nododd y Pennaeth Cyllid yn hanesyddol roedd yr Adran yn prydlesu cerbydau, ond yn dilyn deddfwriaeth newydd o ran y Côd Darbodus, bod yr Adran yn rhoi arian mewn cronfa dros amser ac yn ei wario pan fo angen adnewyddu cerbydau.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

**5. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a oedd yn adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf gwireddu cynlluniau arbedion.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018. Nododd bod 103 o 122 o gynlluniau arbedion 2017/18 wedi eu gwireddu'n llawn neu'n rhannol gyda 7 pellach ar drac i'w gwireddu yn amserol. Amlygodd bod y llithriad yn gwireddu cynlluniau arbedion 2017/18 yn cynnwys yr her sylweddol o wireddu nifer o gynlluniau yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd.

Hysbysodd y Pwyllgor bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cadarnhau yng nghyfarfod y Cabinet ei fwriad i gyflwyno adroddiad ail-becynnu cynlluniau arbedion yr Adran yn fuan i'r Cabinet. O ran yr her o wireddu cynllun arbedion 'Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant' yn yr Adran Plant a Theuluoedd, roedd yr Aelod Cabinet Plant yn rhoi sylw i'r mater. Nododd bod cyllido gofal plant yn faes a oedd yn peri pryder i sawl awdurdod lleol, ond anogir yr Aelod Cabinet i benderfynu'n fuan ar y ffordd ymlaen gyda'r cynllun trawsffurfio.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid bod cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18.

Cyfeiriodd aelod at benderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016, bod rhan ysgolion uwchradd o arbedion yng nghynllun arbedion ysgolion, yn cael ei bontio gan y Cyngor am ddwy flynedd. Holodd pa mor gynaliadwy ydoedd. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r Cyngor yn wynebu dewisiadau anodd erbyn yr adeg yma flwyddyn nesaf, roedd yr eitem ddilynol ar y rhaglen, yn nodi yr argymhellir i'r Cabinet argymell i'r Cyngor Llawn y dylid mantoli'r gyllideb ar gyfer 2018/19 drwy gynyddu Treth y Cyngor a chyflawni'r arbedion a gynlluniwyd heb wneud arbedion pellach. Ymhellach, eglurodd bod Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo grantiau megis Grant Gwella Ysgolion i mewn i'r setliad cyffredinol roedd y Cyngor yn derbyn gan y Llywodraeth, ond nid oedd cynnydd o fewn y setliad. Felly, byddai cwtogi'r grantiau penodol yn golygu lleihad go sylweddol o ran cyllid i ysgolion, ond ni wneir toriad gan Wynedd ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt pa gynllun yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd yn parhau i greu pryder, nododd y Pennaeth Cyllid mai'r cynllun 'Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol' y cyfeirir ato a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau parthed y cynllun. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi torri gwair fwy na'r hyn a gynlluniwyd yn dilyn ceisiadau gan Gynghorwyr.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion.**

**6. CYLLIDEB 2018/19 A STRATEGAETH ARIANNOL 2018/19 – 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2018/19 er mwyn rhoddi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu'r wybodaeth o ran ei briodoldeb ariannol a'r risgiau perthnasol, cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet ar 13 Chwefror.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid. Cyfeiriodd at y 4 seminar cyllid a gynhaliwyd yn ystod Ionawr/Chwefror i dderbyn mewnbwn yr aelodau, gan nodi y cafwyd trafodaethau manwl, synhwyrol ac adeiladol.

Manylodd y Pennaeth Cyllid ar gynnwys yr adroddiad, gan nodi gall y Cyngor dderbyn gostyngiad yn y setliad 2019/20 gan Lywodraeth Cymru o oddeutu £2m, ac wynebu costau uwch o ran cyflogi staff o ganlyniad i gytundeb cenedlaethol o oddeutu £6m erbyn y flwyddyn ariannol 2019/20. Yn ychwanegol i hyn byddai costau chwyddiant cyffredinol ynghyd â gofynion cynyddol yn y maes gofal. Roedd y ffactorau yma yn dangos bod 2019/20 am fod yn heriol. Nododd bod wir angen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wella'r setliad grant er mwyn lleihau'r pwysau ariannol ar lywodraeth leol.

Nododd yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig am 3 blynedd, bod rhaid sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion dros y tair blynedd 2018/19 - 2020/21. Argymhellir i'r Cabinet y dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion cyfredol, gyda'r Cabinet yn penderfynu ar dargedau gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, y penaethiaid adran yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd â'r targedau hynny, a'r pwyllgorau craffu yn herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i'w gweithredu'n flynyddol.

Tynnwyd sylw at Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar fidiau anorfod i ymateb i'r pwysau ar wasanaethau. Cyfeiriodd at yr asesiad effaith o safbwynt cydraddoldeb, asesiad llesiant o ran gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd ag asesiad o gadernid yr amcangyfrifon a oedd yn nodi'r risgiau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- A fyddai llywodraeth ganolog yn newid eu safbwynt o ganlyniad i broblemau ariannol a welir mewn rhai cynghorau lleol eisoes?
- Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi llawer mwy o gyllid i'r Gwasanaeth Iechyd o gymharu â'r hyn a roddir i gynghorau lleol. Nid oedd yn gynaliadwy i'r sefyllfa barhau;
- Bod y sefyllfa ariannol tu hwnt i reolaeth y Cyngor gydag agenda ynghlwm i ad-drefnu llywodraeth leol er mwyn gorfodi cynghorau i gydymffurfio;
- Faint fyddai'n rhaid codi Treth y Cyngor i gadw'r sefyllfa gyfredol dros y ddwy flynedd nesaf?
- O ran y risgiau, derbyn bod cyfraddau llog yn debygol o godi os oes chwyddiant ond yn aml pan roedd Banc Lloegr yn cynyddu cyfraddau llog, nid oedd yn cael ei adlewyrchu gan y banciau yn syth, roedd yn debygol felly y byddai bwlch. Beth a olygir o ran cyllido cost ychwanegol i'r Cyngor o ganlyniad i gynnydd mewn chwyddiant drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel bo'r angen?
- Nid oedd effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn hysbys eto ac fe fyddai'n anorfod yn cael effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ymatebwyd i'r cwestiynau a sylwadau, fel a ganlyn:-

- Y gobeithir dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru o ran cynnydd yn y setliad grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd yr hyblygrwydd o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru yn golygu y gallai'r Llywodraeth fod yn fwy hael;
- Heb ddarganfod arbedion yn y 2 flynedd nesaf fyddai'n rhaid i Dreth y Cyngor gynyddu oddeutu 25% dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn darganfod £14m;
- Cyfeirir at y gyllideb wrth gefn yn benodol o ran cyllido cost ychwanegol i'r Cyngor o ganlyniad i gynnydd mewn chwyddiant. Yn y £4.7 miliwn ar gyfer chwyddiant tâl, roedd oddeutu £4.4 miliwn i gyfarch chwyddiant sy'n digwydd, ond wedi ei gynnwys roedd oddeutu £350k wrth gefn ar gyfer athrawon, sydd â chytundeb tâl cenedlaethol yn cael eu gweithredu o fis Medi. Nododd pe bai'r ysgolion yn gofyn

am gyllid ychwanegol i ddygymod efo'r chwyddiant tâl am hanner blwyddyn, ystyrir rhoddi cyllid ychwanegol dim ond os oedd balansau ysgolion unigol yn llai na 5%. Cytunwyd fod hyn yn enghraifft o reoli risg a bod yn ddoeth yn y ffordd y gwneir hyn.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith swyddogion yr Adran Cyllid a'r Aelod Cabinet Cyllid.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad a'r risgiau perthnasol, ac argymell i'r Cabinet y dylid:**

**(i) argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2018):**

1. **Sefydlu cyllideb o £242,862,930 ar gyfer 2018/19, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £175,127,330 a £67,735,600 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 4.8%.**
2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.**

**(ii) nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n Rhan B, a mabwysiadu'r strategaeth sy'n rhan 32-34 o'r Cynllun.**

## 7. RHEOLAETH TRYSORLYS - DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn ar 1 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2018/19, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.

Gosododd y Pennaeth Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad.

Nodwyd gwerthfawrogiad o'r cyfarfod briffio a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018 i aelodau'r Pwyllgor gydag ymgynghorydd arbenigol o gwmni Arlingclose, sef ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn ar 1 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2018/19 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad C) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

## 8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018 i ystyried archwiliadau 'Iechyd a Diogelwch – Ysgolion Cynradd' ynghyd ag archwiliadau a dderbyniodd gategori barn C, sef -

a) Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr
b) Iechyd a Diogelwch – Ysgol Dyffryn Ardudwy

Gwahoddwyd swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion oedd yn codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod yng nghyswllt rôl Estyn a GwE o ran polisïau iechyd a diogelwch ysgolion, nododd y Rheolwr Archwilio bod ysgolion yn tueddu i gysylltu efo'r Adran Addysg yn gofyn am gopïau o'r polisïau yn dilyn derbyn cadarnhad am archwiliad gan Estyn. 'Roedd yn amheus os byddai polisïau iechyd a diogelwch mewn lle pe byddai archwiliad byr rybudd. Nododd bod GwE yn ymwneud fwy o ran yr ochr addysg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 18/11/17 - 26/1/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 9 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol a 1 archwiliad grant wedi eu cwblhau.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Corfforaethol**

Nododd aelod ei phryder, er bod 76% o staff allan o'r sampl o 63 yn ymwybodol bod gan y Cyngor Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, 'roedd rhai o'r ymatebion gan staff yn dangos nad oeddynt yn ymwybodol o'r cynnwys a beth oedd tu ôl i'r polisi. Ychwanegodd bod angen sicrhau bod staff yn derbyn cyfarwyddyd yng nghyswllt trefniadau diogelu gyda threfn hyfforddi mewn lle.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr ymwybyddiaeth uchaf o ran y polisi diogelu ymysg staff depos priffyrdd gyda llawer o waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r polisi a'i gynnwys gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Nododd aelod y dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried y mater oherwydd ei fod yn faes risg uchel. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg nad oedd y mater yn berthnasol i Wasanaethau Cymdeithasol yn unig, roedd yn fater i holl staff y Cyngor. Eglurodd nad oedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn berchennog ar unrhyw risg ond bod y Pwyllgor angen bodloni ei hun bod trefniadau mewn lle i liniaru'r risg. Nododd y gellir gofyn i Banel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus i hysbysu cynrychiolwyr Adrannau'r Cyngor o ran bylchau yn ymwybyddiaeth o'r polisi.

Ategodd y Rheolwr Archwilio y sylwadau uchod gan nodi bod ymwybyddiaeth o'r polisi diogelu ymysg staff y Cyngor yn derbyn llawer o sylw gan y Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn ogystal. Eglurodd bod Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion uwchlaw'r Panel Gweithredol.

Nododd aelod y dylai'r mater gael ei gyfeirio i gael sylw gan eraill neu dylid ei drafod mewn cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau oherwydd bod y risg wedi ei adnabod gan y Pwyllgor.

Nododd aelod bod diffyg hyfforddiant yn cael ei amlygu fwyaf yn yr archwiliad ac fe fyddai'n fater y gellid ei ystyried yng nghyfarfodydd herio perfformiad Aelodau Cabinet. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod ystadegau hyfforddiant yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod o'r Panel Gweithredol.

Awgrymodd y Rheolwr Archwilio y gellir gwahodd Cadeirydd y Panel Gweithredol i fynychu cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn y dyfodol i fanylu ar y rhaglen waith.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 18 Tachwedd 2017 hyd at 26 Ionawr 2018 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**

**(ii) bod Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn mynychu cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn y dyfodol i fanylu ar y rhaglen waith.**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2017/18.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 26 Ionawr 2018 wedi cwblhau 67.24% o'r cynllun, gyda 39 o'r 58 archwiliad yng nghynllun 2017/18 wedi eu rhyddhau yn derfynol. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cynllun o ganlyniad i'r angen i flaenoriaethu archwiliadau oherwydd diffyg adnoddau.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18.**

## 11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi manylion am gynllun drafft o waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2018/19 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor. Nodwyd bod y cynllun drafft wedi ei baratoi yn dilyn cyfarfodydd gyda Phenaethiaid neu dîm rheoli adrannol ac fe ystyriwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ogystal â chofrestrau risg pob adran.

Tynnwyd sylw bod gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer gwaith dilyniant yn y cynllun drafft gan nad oedd angen gymaint o oriau yn dilyn newid ffordd o weithio'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt archwiliad 'Bwrdd Twf Gogledd Cymru' o ran risgiau i'r Cyngor o ran colli siroedd Wrecsam a Fflint i bartneriaeth gyda Merswy Dyfrdwy yn hytrach na'u bod yn rhan o gyfundrefn draws ogleddol, nododd y Rheolwr Archwilio nid oedd penderfyniad wedi ei wneud o ran y Cyngor Arweiniol ond gydag unrhyw brosiect mawr fe fyddai risgiau. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod y prosiect yn y camau cychwynnol a bod swyddogion yn ymwybodol o'r risg ac yn ceisio sicrhau na fyddai'r cyllid yn mynd i gyd i'r Dwyrain. Nododd y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cadw golwg.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.55pm

____________________________

**CADEIRYDD**

Eitem 7a

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2018 – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 513A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed/sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2018

Crynodeb 4

Archwilio cyfrifon 4

Archwilio perfformiad 8

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant 13

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen 14

Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio 16

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau 18

Atodiad 2 – gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fod ar droed 21

Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol 22

Atodiad 4 – astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 25

# Cynllun Archwilio 2018

## Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn ‘gywir a theg’;
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

3 Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio cyfrifon

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch’. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; a
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

6 Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

7 Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.

8 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

## Arddangosyn 1: fy null archwilio

Mae tri cham allweddol i'm dull archwilio: cynllunio, gweithredu ac, yn olaf, ddod i gasgliad ac adrodd




9 Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

## Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio ariannol allweddol a nodir yng ngham cynllunio'r archwiliad

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau a dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd gan gynnwys cynnal adolygiad manwl o ddarpariaethau; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol na wnelo dim â busnes arferol. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Cyflawnder gwariant a'r dyddiad cau ar gyfer gwariant**<br>Rydym wedi nodi bod risg sylweddol yn gysylltiedig â chyflawnder gwariant am y gall fod cymhelliant i beidio â chofnodi'r holl wariant er mwyn i'r Cyngor gofnodi sefyllfa fwy ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau sydd ar waith er mwyn sicrhau cyflawnder gwariant;<br>• cynnal profion archwilio penodol mewn perthynas â chyflawnder a chau gwariant; a<br>• chynnal profion manwl mewn perthynas ag amcangyfrifon a dyfarniadau rheolwyr fel y nodir yn y risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau a nodir uchod. |
| **Prisiadau eiddo**<br>Mae'r Cyngor yn cwblhau proses brisio lawn gylchol lle y caiff dosbarthiadau o asedau eu prisio'n llawn bob pum mlynedd, gyda phrisiadau eraill yn cael eu cwblhau gan briswyr mewnol.<br><br>Mae prisiadau eiddo, yn ôl eu natur, yn cynnwys dyfarniadau ac amcangyfrifon a gan fod prisiadau tir ac adeiladu ym mis Mawrth 2017 yn cyfateb i £288m, gall newidiadau mewn dyfarniadau ac amcangyfrifon gael effaith berthnasol ar y gwerth cario. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cwblhau profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu mewn perthynas â'r broses prisio eiddo gan gynnwys nodi lleihad mewn gwerth y tu allan i'r broses brisio;<br>• gweithio gydag arbenigwyr prisio mewnol er mwyn asesu rhesymoldeb tybiaethau sy'n sail i'r prisiad; ac<br>• olrhain yr holl symudiadau prisio drwy'r datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datgan yn deg. |

10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.

11 At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel ‘ddibwys’ (5% o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

12 Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
- bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad yn effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;

- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

13 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol Cyngor Gwynedd a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Gyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

## Swyddogaethau archwilio statudol

14 Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Arolygiad o dan Adran 30 o ddogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; a
- Hawl o dan Adran 31 i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

15 Codir ffioedd archwilio am waith a wneir wrth ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr. Oherwydd y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid oes modd amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.

16 Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, trafodaf ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

## Gwaith archwilio ariannol arall

17 Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio dau gydbwyllgor y mae'r Cyngor yn awdurdod cynnal ar eu cyfer; y rhain yw Cydbwyllgor GwE a'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio. Yn ogystal, rwy'n gyfrifol am y pedwar harbwr; sef Pwllheli, Abermo, Porthmadog ac Aberdyfi y mae'r Cyngor yn awdurdod harbwr ar eu cyfer. Hoffwn dynnu eich sylw at y maes risg canlynol a nodwyd gennyf mewn perthynas â Chydbwyllgor GwE sydd uwchlaw'r rheini a orfodir gan ISA 240.

Arddangosyn 3: risg archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risg archwilio ariannol allweddol a nodir mewn perthynas â Chydbwyllgor Gwe

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Incwm a gwariant grantiau GwE**<br>Mae'r Pwyllgor yn cael arian grant sylweddol, y caiff y rhan fwyaf ohono ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n eithrio'r arian grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r Pwyllgor asesu p'un a yw'n gweithredu fel asiant neu brif gorff. | Bydd fy nhîm archwilio yn ceisio deall polisi cydnabyddiaeth y pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grantiau a fydd yn cynnwys adolygiad o ran p'un a yw'r pwyllgor yn gweithredu fel prif gorff neu asiant. Byddwn yn cynnal profion manylder i gadarnhau p'un a fodlonwyd meini prawf cydnabyddiaeth. |

# Archwilio perfformiad

18 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau byddaf yn parhau i geisio sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy wneud y canlynol:

- rhoi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

19 Gan ei bod yn debygol y bydd Bil disgwyliedig Llywodraeth Leol Cymru yn cynnig na fydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn lleihau’r gwaith sy’n canolbwyntio ar y broses o gynllunio gwelliannau.

20 Yn y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur i’m helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni fy hun bod cynghorau wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. Gan na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur yn y dyfodol, yn 2018-19, ac mewn blynyddoedd dilynol, bydd canolbwynt fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn cyd-fynd yn gliriach â'r nod o gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

21 Yn 2017-18 ymgymerais â'm darn cyntaf o waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef Sylwadau Blwyddyn Un. Nod y gwaith hwn oedd nodi sut mae cyrff cyhoeddus yn dechrau ymateb i'r Ddeddf a rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg. Bydd fy rhaglen ar gyfer 2018-19 yn cynnwys yr archwiliadau cyntaf sydd i'w cynnal o dan y Ddeddf. Bydd yr archwiliadau hyn yn

asesu i ba raddau rydych yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni eich amcanion llesiant.

22 Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi sefyllfa bresennol y rhaglen gyfredol o astudiaethau. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain yn bennaf at adroddiad cenedlaethol a ategir gan allbynnau dysgu ar y cyd ac arfer da yn hytrach nag adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, lle bo hynny'n berthnasol, eu cynnwys mewn gwaith asesu gwelliant a'u cofnodi mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a ffocws y casgliadau.

23 Yn ystod gwanwyn 2018 byddaf hefyd yn ymgynghori ynghylch fy mlaenraglen o astudiaethau ym mhob sector a byddwn yn croesawu sylwadau ar y meysydd y dylwn ganolbwyntio fy adolygiadau cenedlaethol arnynt pan gaiff yr ymgynghoriad ei lansio.

Arddangosyn 4: astudiaethau llywodraeth leol

Yn ystod 2017-2018, cyhoeddais ddau adroddiad cenedlaethol yn ymwneud â llywodraeth leol, ac rwy'n disgwyl cyhoeddi trydydd adroddiad yn ystod mis Ebrill 2018. Byddaf hefyd yn ymgymryd â gwaith maes ar gyfer tri adroddiad pellach yn ystod haf a hydref 2018.

| Astudiaeth | Statws |
|---|---|
| **Astudiaethau 2016-17** | |
| Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw | Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 |
| Gwella llesiant drwy addasiadau i dai | Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 |
| Comisiynu strategol | Cyhoeddir ym mis Ebrill 2018 |
| **Astudiaethau 2017-18** | |
| Gwasanaethau i gymunedau gwledig | Gwaith maes – Cyhoeddir yn ystod haf/hydref 2018 |
| Y defnydd o ddata | Gwaith maes – Cyhoeddir yn ystod haf/hydref 2018 |
| Cronfa gofal integredig | Gwaith maes ym mis Chwefror – Cyhoeddir yn ystod hydref 2018 |

24 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2018-19 yn cynnwys:

Arddangosyn 5: rhaglen archwilio perfformiad

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2018 yn cynnwys prosiectau lleol ac astudiaethau cenedlaethol

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliant gan gynnwys archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant | Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, a chyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni un neu fwy o'i amcanion llesiant – y byddwn yn eu trafod ac yn cytuno arnynt â'r Cyngor ddechrau 2018-19. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Sicrwydd ac Asesu Risg | Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwneud rhagor o waith archwilio mewn blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. |
| Gwasanaethau Hamdden | Adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i ddarparu gwasanaethau hamdden gan adeiladu ar yr astudiaeth a gynhaliwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r astudiaethau â thema 'cyflawni â llai'. |
| Trefniadau Diogelu Corfforaethol | Adolygu effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol gan adeiladu ar yr astudiaeth a gynhaliwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y maes hwn. |
| **Astudiaethau Llywodraeth Leol 2018-19** | Fe'u hariennir gan Lywodraeth Cymru |
| Rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar ddiwygio a symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill ac mae'n cwmpasu oedolion, plant a'u gofalwyr, a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Bydd yr astudiaeth yn adolygu'r cynnydd y mae awdurdodau wedi'i wneud o ran cyflawni eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf ac yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella'r trefniadau rheoli a chyflawni presennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Rhoi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith | Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; darparu ffocws strategol ar y materion hyn; a sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyson i systemau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau i wella cymorth i bobl y mae camdriniaeth a thrais o'r fath yn effeithio arnynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |
| Gwerth am Arian Gwasanaethau Cynllunio | Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn gydnerth a'i bod yn galluogi datblygu. Bydd gwasanaeth cynllunio effeithiol yn llywio'r gwaith o bennu cymeriad awdurdod lleol neu barc cenedlaethol, ei ddatblygu a sicrhau ei ffyniant. O ystyried gofynion y Ddeddf, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio yn sicrhau bod eu gwasanaethau yn addas at y diben er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn ogystal â helpu i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd ein hadolygiad yn ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau cynllunio ar gymunedau lleol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad galwad am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

25 Nodir y prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sydd naill ai'n dal i fod ar droed neu a ddisodlwyd gan brosiectau amgen drwy gytundeb â chi, yn Atodiad 2.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

26 Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor fel y nodir yn Atodiad 3. Rhoddir manylion yno am ein disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn symleiddio ei threfniadau sicrwydd drwy gyflwyno'r ‘Rhestr Gryno o Grantiau Ardystiedig Llywodraeth Cymru’ i bob awdurdod unedol. Mae hyn yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd mewn pedwar awdurdod y llynedd. Golyga hyn na ddylai fod ond nifer fach o hawliadau a ffurflenni grant i'w hardystio yn y ffordd ‘draddodiadol’ o hyd.

27 Ar gyfer eleni, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno unrhyw adroddiad ar ganfyddiadau ffeithiol sy'n ymwneud ag unrhyw lefelau o weithgarwch na chanlyniadau.

28 Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 6.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

29 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2018 yn Arddangosyn 6.

### Arddangosyn 6: ffi archwilio

Cyfanswm y ffi archwilio fydd £392,687, sy'n cynnwys £180,450 am archwilio'r cyfrifon, £99,537 am waith archwilio perfformiad, £100,000 (amcangyfrif) am ardystio hawliadau a ffurflenni grant a £12,700 am waith archwilio ariannol arall.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 180,450 | 180,450 |
| Archwilio cyfrifon GwE2 | 11,000 | 11,000 |
| Archwilio Cydbwyllgorau[2] | 1,700 | 1,700 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 99,537 | 99,537 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | 100,000 | 125,000 |
| **Cyfanswm y ffi** | **392,687** | **417,687** |

Nodiadau:
[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, am na chaiff TAW ei chodi arnoch mwyach.
[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Hydref 2018.
[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.
[4] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud. Mae hon yn ffi amcangyfrifedig ac mae wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol yn dilyn cyflwyno newidiadau i'r broses ardystio grantiau.

30 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

31 Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Tîm archwilio

32 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: fy nhîm

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer y tîm archwilio

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 264319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Lauren Parsons | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07771 335323 | laurparsons@deloitte.co.uk |
| Huw Rees | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Perfformiad | 02920 320599 | huw.rees@archwilio.cymru |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07825 052861 | jeremy.evans@archwilio.cymru |
| Paul Goodlad | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07854 108620 | paul.goodlad@audit.wales |

33 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Gwynedd a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

34 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i Gyngor Gwynedd sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: amserlen

Mae'r tabl hwn yn nodi fy amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio yn yr awdurdod a chyflwyno adroddiad arno

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2018** | Ionawr – Ebrill 2018 | Ebrill 2018 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Chwefror – Medi 2018 | Medi 2018<br>Medi 2018<br>Hydref 2018 |
| **Adroddiad Archwilio Blynyddol** | Mai – Tachwedd 2018 | Tachwedd 2018 |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Archwiliad o'r Cynllun Gwella<br>• Archwiliad o'r Asesiad o Berfformiad<br>• Sicrwydd ac Asesu Risg<br>• Archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Gwaith thematig a gwaith cysylltiedig | Ebrill 2018<br>Tachwedd 2018<br>Tachwedd 2018 – Chwefror 2019<br>Tachwedd 2018 – Chwefror 2019<br>Mai 2018 – Chwefror 2019 | Mai 2018<br>Rhagfyr 2018<br>Dim adroddiad: mae'n llywio gwaith archwilio 2018-19 a Chynllun Archwilio 2019<br>Mawrth 2019<br>Mawrth 2019 |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Ebrill 2018 – Mai 2019 | Mehefin 2019 |
| Cynllun Archwilio 2019 | Rhagfyr 2018 – Chwefror 2019 | Mawrth 2019 |

* Yn amodol ar gymeradwyaeth amserol o'r canfyddiadau drafft gyda Chyngor Gwynedd.

# Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

35 Mae manylion am ddatblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) allweddol a seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael yn Atodiad 4.

36 Nod rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Mae seminarau'r Gyfnewidfa yn dod ag amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus ynghyd i rannu eu profiadau ymarferol a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt mewn meysydd lle byddai'n fuddiol rhannu arfer da, yn ein barn ni. Cynhelir y seminarau hyn yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr. Mae'r digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- **Caffael Cynaliadwy.** Canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi trefniadau caffael cynaliadwy mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- **Mesur Canlyniadau.** Gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae 44 o gyrff yn newid eu ffocws o allbynnau i ganlyniadau ac effaith
- **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.** Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol

- **Seminar Ddigidol**, yn ystyried astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar ddefnyddio data'n effeithiol. Gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab
- **Creu Cymunedau Cryf.** Canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **Gwaith partneriaeth rhwng Cyrff Gwirfoddol a Chyrff Sector Cyhoeddus.** Hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau.
- **Archwiliad Ariannol** – **Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar.** Canolbwyntio ar newid diwylliant ac ymddygiad
- **Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen.** Mewn partneriaeth â CLlLC, WCVA, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru
- **Seiberddiogelwch.** Canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu
- **Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, Gofal Cymdeithasol, Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector
- **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar bwnc ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa yn dilyn hyn gyda seminar er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio cyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu p'un a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn Cyngor Gwynedd y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, drwy archwilio'r cyfrifon neu fel arall, fodloni fy hun bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os oes angen iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad) wedi gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth a'i chyhoeddi fel sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i mi hefyd gynnal

archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Mae adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y canlynol:

(a) pennu amcanion llesiant; a

(b) cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal y fath archwiliad o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith ystod cyfnod o 5 mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo

Arddangosyn 9: gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo

Mae pum darn o waith archwilio perfformiad lleol ar sail risg a gafodd eu cynnwys yng nghynllun archwilio'r llynedd yn dal i fynd rhagddynt.

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Craffu – Addas i'r Dyfodol? | Clirio'r adroddiad | Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018 |
| Adolygiad o Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth (Llyfrgelloedd Gwynedd) | Clirio'r adroddiad | Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018 |
| Adolygiad o'r System Wybodaeth Adnoddau Dynol | Drafftio adroddiad | Cyhoeddwyd ym mis Ebrill / Mai 2018 |
| Gwaith dilynol ar gynigion cenedlaethol ar gyfer gwella | Briff y prosiect i'r Cyngor Ebrill 2018 | Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018 |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Drafft i'r Cyngor Mai 2018 | Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018 |

# Atodiad 3

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### Newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Arddangosyn 10: newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Mae tri newid allweddol i reolau cyfrifyddu a fydd yn cael effaith ar yr awdurdod dros y tair blynedd nesaf.

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| **IFRS 9 Offerynnau ariannol** | 2018-19 | Bydd IFRS 9 offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd o ddosbarthu a mesur asedau ariannol yn seiliedig ar egwyddorion.<br>Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg lleihau gwerth newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion yr eir iddynt. Bydd hyn yn golygu y gellir cydnabod colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn fwy amserol.<br>Caiff bron yr holl ofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol eu cario ymlaen heb eu newid o IAS 39. |
| **IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid** | 2018-19 | Mae IFRS 15 refeniw o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor craidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gydnabyddir ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl bod ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny.<br>Bydd hefyd yn galw am ddatgeliadau mwy cynhwysfawr nag sydd eu hangen ar hyn o bryd. |
| **IFRS 16 Prydlesi** | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar brydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn cael gwared i raddau helaeth ar y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid i ddeiliaid prydles drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer deiliaid prydles sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Yn sgil hyn, caiff pob prydles ei chydnabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl i ddefnyddio' gyda rhwymedigaeth gyfatebol am renti yn y dyfodol. Mae hwn yn newid mawr i drefniadau cyfrifyddu o ran deiliaid prydles. |

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ddeddf diogelu data newydd i'r UE cyfan a fydd yn gymwys o 25 Mai 2018 ymlaen ac sydd â'r nod o gysoni a diweddaru deddfau diogelu data. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Diogelu Data, a fydd yn ymgorffori'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yng nghyfraith y DU ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998, ac y mae'n bwriadu y bydd hefyd yn dod i rym ar 25 Mai 2018.

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cyflwyno gofynion newydd o ran prosesu data personol, gan gynnwys egwyddor atebolrwydd a fydd yn gofyn am gofnodion manylach o weithgareddau prosesu data personol, tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data a'r mesurau diogelwch technegol a sefydliadol a roddir ar waith i ddiogelu'r data. Rydym yn diweddaru ein polisïau, ein prosesau a'n dogfennaeth ein hunain er mwyn bodloni'r gofynion hyn ac yn disgwyl i'r cyrff a archwilir gennym gymryd camau tebyg. Bydd meysydd allweddol o waith ychwanegol yn cynnwys defnyddio hysbysiadau prosesu teg manylach, mwy o asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd a chadw cofnodion mwy cynhwysfawr mewn perthynas â gweithgareddau prosesu.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r awdurdodau gweinyddu ar gyfer wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru wedi sefydlu cronfa buddsoddi pensiwn yn unol â gofynion y llywodraeth. O fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio'r broses o gyfuno buddsoddiadau gwerth tua £15 biliwn o wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae angen i'r awdurdodau perthnasol gael eu cynnwys yn llawn yn y broses er mwyn sicrhau y caiff trefniadau priodol eu rhoi ar waith sy'n bodloni eu gofynion ac i gyflawni manteision cronni sy'n cynnwys arbedion maint a llai o gostau.

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a chaiff adnoddau eu rhannu ar-lein.

### Arddangosyn 11: Gweminarau a seminarau arfaethedig y Gyfnewidfa yn y dyfodol

Mae fy rhaglen arfaethedig ar gyfer y Gyfnewidfa yn cynnwys 11 maes pwnc

| Dyddiad | Fformat | Pwnc |
|---|---|---|
| **Ebrill 2018** | Gweminar | **Caffael Cynaliadwy.** Canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi trefniadau caffael cynaliadwy mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| Dyddiad | Fformat | Pwnc |
|---|---|---|
| **Mai 2018** | Gweminar | **Mesur Canlyniadau.** Gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae 44 o gyrff yn newid eu ffocws o allbynnau i ganlyniadau ac effaith. |
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.** Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Digidol**. **Seminar Ddigidol** yn ystyried astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar ddefnyddio data'n effeithiol. Gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab. |
| **Gorffennaf 2018** | Seminar | **Creu Cymunedau Cryf.** Canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| **Medi 2018** | Seminar | **Gwaith partneriaeth rhwng Cyrff Gwirfoddol a Chyrff Sector Cyhoeddus.** Hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau. |
| **Hydref 2018** | Gweminar | **Archwiliad Ariannol** – **Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar.** Canolbwyntio ar newid diwylliant ac ymddygiad. |
| **Rhagfyr 2018** | Seminar | **Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen.** Mewn partneriaeth â CLlLC, CGGC, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru. |
| **Ionawr 2019** | Gweminar | **Seiberddiogelwch.** Canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu. |
| **Chwefror 2019** | Seminar | **Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, y sector Gofal Cymdeithasol, y sector Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector. |
| **Mawrth 2019** | Seminar | **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar bwnc ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa yn dilyn hyn gyda seminar er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd. |

# Atodiad 4

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan yr Awdurdod hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Cefnogir yr astudiaethau hyn gan gronfeydd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosibl i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Arddangosyn 12 yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol, gwaith dilynol neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol eraill.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

Arddangosyn 12: astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

| Pwnc | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (ar 12 Ebrill 2018) |
|---|---|
| Gwasanaethau gofal sylfaenol[2] | Gwanwyn 2018 |
| Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol | Gwanwyn 2018 |
| Rheoli gwastraff (atal gwastraff)<br>Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)<br>Rheoli gwastraff (caffael seilwaith) | Gwanwyn / Haf 2018 |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[3] | Gwanwyn 2018 |
| Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau – adroddiad cryno cenedlaethol | Gwanwyn 2018 |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 | Gwanwyn 2018 |
| Cyllid busnes | Gwanwyn 2018 |

[2] Adroddiad llawn data cychwynnol sy'n cyflwyno 'darlun o ofal sylfaenol' cyn rhagor o waith archwilio lleol.

[3] Yn dilyn gwaith arfer da, rydym yn bwriadu llunio papur crynodeb byr i dynnu sylw at rai o'r materion a godwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith hwnnw, a ategir gan gyfres o bodlediadau.

| Pwnc | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (ar 12 Ebrill 2018) |
|---|---|
| Costau staff asiantaeth y GIG[4] | Haf 2018 |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 | Haf 2018 |
| Gwella llesiant pobl ifanc | Gaeaf 2018 |
| Gwasanaethau radioleg – crynodeb cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Cronfa Gofal Integredig | I'w gadarnhau |
| Gofal a gafwyd gan blant a phobl ifanc[5] | I'w gadarnhau |

[4] Yn ddiweddar, mae gwaith wedi dechrau ar gasglu data o bob gwasanaeth iechyd yn y DU er mwyn ategu papur ar ddulliau amrywiol o ymdrin â chostau cynyddol cyflogi staff meddygol a nyrsio asiantaeth yn y GIG. Ni phenderfynwyd ar union fformat yr allbwn hwn eto.

[5] Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bellach wedi amlinellu ei gynlluniau cychwynnol ar gyfer rhywfaint o waith ymchwilio parhaus ar y pwnc hwn. Byddaf yn ategu'r gwaith hwn, er na phenderfynwyd eto ar union natur unrhyw allbynnau ychwanegol sy'n ymwneud ag archwilio a'r amserlen ar eu cyfer.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2018
# Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: 1/5/2018

Cyfeirnod y ddogfen: 550A2018-19

**Fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon tra bo trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n helaeth.**

Lluniwyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a wneir/i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n gymwys, yr archwilwyr sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Lluniwyd y ddogfen hon gan archwilwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd, Deloitte LLP.

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2018

Crynodeb 4

Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn 4

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen 6

Datblygiadau yn y dyfodol 8

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau 9

Atodiad 2 – datblygiadau eraill yn y dyfodol 10

# Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy nod yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio i archwilio ac ardystio pa un a yw datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) yn 'wir a theg'.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

3 Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

# Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn


5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi adroddiad ar y datganiadau cyfrifyddu sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.

6 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â chyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: fy null archwilio



7 Nodir y risg o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â nhw. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, ystyriais fod risg sylweddol o gamddatganiad perthnasol o ran prisio buddsoddiadau ecwiti preifat. Nid wyf o'r farn bod y risg hon o gamddatganiad perthnasol yn sylweddol yn y flwyddyn gyfredol gan fod datganiadau ariannol archwiliedig ar gael ar gyfer pob un o'r cronfeydd a ddelir ac na nodwyd unrhyw wallau o ganlyniad i brofion y flwyddyn flaenorol.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau**<br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;<br>• adolygu'r gwaith o gynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau i'r cyfriflyfr ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. |

8 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn yn gywir a theg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau, y Bwrdd Pensiynau ac i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Cyngor Gwynedd (y Cyngor), fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn ei chyfanrwydd, cyn cwblhau'r archwiliad. Mae perthnasedd, yn seiliedig ar asedau net, wedi cael ei bennu dros dro ar £18,600,000 (gan ddefnyddio gwerthoedd asedau net ar 31 Mawrth 2017). Caiff hyn ei adolygu yn yr archwiliad terfynol.

9 At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel ‘ddibwys’ (a bennir ar 5% o berthnasedd, £930,000) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

10 Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
- bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni fy archwiliad yn effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad; ac
- mae'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf.

## Swyddogaethau archwilio statudol

11 Yn ychwanegol at archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

12 Codir ffioedd archwilio am waith a wneir wrth ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr. Oherwydd y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid oes modd amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.

13 Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, trafodaf ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Y ffi

14 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2018 yn Arddangosyn 3. Mae'r ffigur hwn yn gyson â'r ffi a nodwyd yng nghynllun archwilio 2017.

Arddangosyn 3: ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig ar gyfer 2018 (£) | Ffi wirioneddol ar gyfer 2017 (£) |
| --- | --- | --- |
| Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn[1] | 34,200 | 34,200 |

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, gan na chodir TAW arnoch mwyach.

15 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gyntaf.

16 Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y tîm archwilio

17 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
| --- | --- | --- | --- |
| Andy Fern | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 01216968981 | anfern@deloitte.co.uk |
| Sam Roden | Rheolwr Archwilio Ariannol | 01216955148 | sroden@deloitte.co.uk |

18 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm oll yn annibynnol ar y Gronfa Bensiwn a'i swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

19 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Pwyllgor Pensiynau, y Bwrdd Pensiynau a Phwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd, yn ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon.  Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wneir | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2018** | Mawrth/Ebrill 2018 | Mai 2018 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin – Gorffennaf 2018 | Medi 2018 |
| **Cynllun Archwilio 2019** | Ionawr – Mawrth 2019 | Ionawr 2019 |

# Datblygiadau yn y dyfodol

## Arall

20 Mae manylion am ddatblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) allweddol a seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael yn Atodiad 2.

21 Nod rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Mae seminarau'r Gyfnewidfa yn dod ag amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus ynghyd i rannu eu profiadau ymarferol a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt mewn meysydd lle byddai'n fuddiol rhannu arfer da, yn ein barn ni. Cynhelir y seminarau hyn yn rhad ac am ddim i'r cynadleddwyr.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

Y Cyngor yw awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Paratowyd y Cynllun Archwilio hwn i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn yr Awdurdod y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi sylwadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Archwilio Rhyngwladol.

# Atodiad 2

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### Newidiadau IFRS sydd i ddod

Arddangosyn 6: newidiadau IFRS sydd i ddod

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| IFRS 9 offerynnau ariannol | 2018-19 | Bydd IFRS 9 offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd o ddosbarthu a mesur asedau ariannol yn seiliedig ar egwyddorion. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg lleihau gwerth newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion yr eir iddynt. Bydd hyn yn golygu y gellir cydnabod colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn fwy amserol. Caiff bron yr holl ofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol eu dwyn ymlaen heb eu newid o IAS 39. |

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ddeddf diogelu data newydd i'r UE cyfan a fydd yn gymwys o 25 Mai 2018 ymlaen ac sydd â'r nod o gysoni a diweddaru deddfau diogelu data. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Diogelu Data, a fydd yn ymgorffori'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yng nghyfraith y DU ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998, ac y mae'n bwriadu y bydd hefyd yn dod i rym ar 25 Mai 2018.

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cyflwyno gofynion newydd o ran prosesu data personol, gan gynnwys egwyddor atebolrwydd a fydd yn gofyn am gofnodion manylach o weithgareddau prosesu data personol, tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data a'r mesurau diogelwch technegol a sefydliadol a roddir ar waith i ddiogelu'r data. Rydym yn diweddaru ein polisïau, ein prosesau a'n dogfennaeth ein hunain er mwyn bodloni'r gofynion hyn ac yn disgwyl i'r cyrff a archwilir gennym gymryd camau tebyg. Bydd meysydd allweddol o waith ychwanegol yn cynnwys defnyddio hysbysiadau prosesu teg manylach, mwy o asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd a chadw cofnodion mwy cynhwysfawr mewn perthynas â gweithgareddau prosesu.

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a chaiff adnoddau eu rhannu ar-lein.

Mae digwyddiadau'r Gyfnewidfa yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol, staff y sector cyhoeddus a llywodraethu, ymhlith pethau eraill. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau'r Gyfnewidfa yn y dyfodol ac allbynnau seminarau blaenorol, ar gael ar adran y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **10 MAI 2018** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2018** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Ionawr 2018 hyd at 31 Mawrth 2018.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 16 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Modiwl Datblygu Staff | Corfforaethol | - | C | Atodiad 1 |
| Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thysiolaeth o Gymwysterau | Corfforaethol | - | C | Atodiad 2 |
| Incwm Cinio Ysgol | Addysg | Ysgolion | Dim Categori | Atodiad 3 |
| Hylendid Bwyd | Amgylchedd | Gwarchod y Cyhoedd | B | Atodiad 4 |
| Manddaliadau | Amgylchedd | Tir ac Eiddo'r Cyngor | Ch | Atodiad 5 |
| Cynlluniau Adeiladu Ysgolion – Ysgol Glancegin | Amgylchedd | Tir ac Eiddo'r Cyngor | B | Atodiad 6 |
| Incwm Meysydd Parcio | Amgylchedd | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 7 |
| Cronfa Bensiwn – Datganiadau Blynyddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 8 |
| Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 9 |
| Storiel – Trefniadau Rheoli'r Caffi | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Dim Categori | Atodiad 10 |
| Doc Fictoria | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 11 |
| Teleofal | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Oedolion | A | Atodiad 12 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Tai â Chefnogaeth | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 13 |
| Y Frondeg | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Dim Categori | Atodiad 14 |
| Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 15 |
| Targedau Ailgylchu | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 16 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

## 3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2016/17, fe ddaethpwyd i gytundeb ar 223 o gamau gweithredu i’w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2018. Erbyn hyn, yn hytrach na chynnal dilyniant at adroddiadau barn “C” yn unig, bydd pob cam a gytunwyd yn derbyn sylw trwy ofyn i’r uned/gwasanaeth /sefydliad anfon tystiolaeth i brofi gweithrediad. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gweithrediad derbyniol ar **90.09%** o’r camau cytunedig, h.y. 200 allan o 222. Nid oedd un o’r camau cytunedig yn berthnasol erbyn hyn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Ionawr 2018 hyd at 31 Mawrth 2018, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi’r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi’u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**MODIWL DATBLYGU STAFF (MoDS)**
**CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Fel rhan o brosiect ehangach y Cyngor o ganoli sawl system Adnoddau Dynol i'r un lle o fewn y system Hunanwasanaeth Staff, cychwynnwyd y prosiect MoDS i ganoli holl elfennau o ddysgu a datblygu staff. Bydd y MoDS yn casglu gwybodaeth o System Swyddi Gwynedd, y Ganolfan Bolisi a'r Porth E-ddysgu ac yn cymryd lle'r Bas Data Hyfforddi a'r Ddolen Ddysgu. Trafodwyd y prosiect a chyflwynwyd dogfennaeth gychwynnol ym mis Mawrth 2009, daeth adnoddau ar gael ar gyfer y prosiect yn 2013 ond ni chychwynnwyd ef ar ei ddelwedd bresennol tan 2016 oherwydd blaenoriaethau'r Cyngor megis y systemau Hunanwasanaeth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli'r prosiect yn briodol ac adrodd ar ei effeithiolrwydd. Roedd hefyd yn hanfodol sicrhau bod y cynnyrch yn cyflawni'r hyn oedd yn ofynnol yn y brîff. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio dogfennaeth gysylltiedig â'r prosiect yn ogystal â holi unigolion ymglymedig ynglŷn â threfniadau rheolaethol a thechnegol y prosiect.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Derbyniwyd copi o'r brîff prosiect yn ogystal â dogfennaeth eraill ynglŷn â rheoli'r prosiect megis cais prosiect a rhestr 'backlog'. Roedd gwybodaeth gyflawn am amcanion cychwynnol y prosiect a'r tasgau technegol oedd angen eu cwblhau a phryd. Roedd diffyg tystiolaeth o gynllunio tymor hir ar gyfer y prosiect. Nid oedd yn rhan o gynllun swyddogol ond mynegwyd mewn cyflwyniad i ran-ddeiliaid y prosiect buasai 'SIDD (System Integredig Dysgu a Datblygu) llawn yn fyw erbyn Haf 2017'. Gwelwyd amserlenni/cynlluniau am gyfnodau o dri (Medi - Tachwedd 2017) a phum mis (Hydref 2017 - Chwefror 2018) ond prin oedd tystiolaeth bod y prosiect yn ymlynu at yr amserlenni hyn neu gofnod yn nodi methiant a rhesymeg dros hynny. Yn yr amserlen Medi - Tachwedd, roedd y system i fod 'yn fyw' rhwng y 6$^{ed}$ a'r 17$^{eg}$ o Dachwedd. Erbyn hyn, mae swyddogion TG yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda swyddogion y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Ar amser cynnal yr archwiliad, nid oedd elfennau craidd rheoli prosiect wedi eu sefydlu megis:

- cofrestr risgiau a materion arwyddocaol - er bod log "issue" yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth TG, doedd risgiau'r prosiect yn ei gyfanrwydd heb eu hadnabod,
- log gwersi a ddysgwyd, nac
- unrhyw ddogfennaeth monitro cyllid.

3.2 Pwysleisiodd y Swyddog Dysgu a Datblygu a'r Swyddog Datblygu Busnes a Chydlynydd Hyfforddi bod y MoDS yn system i bawb nid i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn unig. Mae felly'n bwysig i'r system gyfarfod anghenion pob adran o fewn y Cyngor. Ar y cyfan mae'r MoDS yn cyfarfod rhan helaeth o anghenion bob adran gyda rhai adrannau megis YGC a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol yn awyddus i lansiad y modiwl. Cafodd nodweddion ychwanegol a gwelliannau eu hychwanegu yn sgil ymgynghori ag adrannau, yn arbennig o safbwynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

3.3 Serch y ffaith bod y modiwl am gwrdd anghenion y mwyafrif, eglurodd swyddogion y Gwasanaeth Datblygu Gweithlu, (o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) bod llawer o unigolion nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor yn derbyn hyfforddiant gan y Cyngor ac nad oes modd eu cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth staff. Erbyn hyn, mae trefniadau ar y gweill i alluogi cofnodi hyfforddiant gweithwyr asiantaethau allanol ond bydd hyn yn cael ei wneud gan swyddogion y Gwasanaeth Datblygu Gweithlu (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). Ni dderbyniwyd cais am hyn ar gychwyn "bywyd" y prosiect gan nad oedd cyfathrebiad wedi bod gyda'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynglŷn â'r prosiect ar yr adeg. Mae trefniadau ar y gweill gan y Gwasanaeth Cefnogol i gofrestru gweithwyr maes y Cyngor ar y system Hunanwasanaeth staff a fydd yn galluogi mynediad at y MoDS.

3.4 Eglurwyd yn ystod yr archwiliad bod ymgynghorydd TG allanol wedi ei gyflogi drwy asiantaeth i ymgymryd â'r prosiect. Bu i'r ymgynghorydd derfynu gyda'r Cyngor ar 17 Tachwedd 2017. Echdynnwyd manylion o'r cyfriflyfr ariannol a gwelwyd bod cyfanswm o oddeutu £90k heb gynnwys TAW wedi ei dalu i'r asiantaeth am y cyfnod o 12 mis. Cytundeb 6 mis a sefydlwyd yn wreiddiol gyda dau estyniad pellach o 3 mis. Ariannir y prosiect gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Mae'r cyfrifoldeb am ddatblygiad gweithredol y prosiect wedi ei drosglwyddo'n ôl i Wasanaeth TG y Cyngor yn dilyn terfynu gwasanaeth yr Ymgynghorydd TG allanol. Eglurwyd bod llawer o amser yr ymgynghorydd wedi ei dreulio yn casglu gwybodaeth a manylion oherwydd diffyg briff clir a phendant o anghenion a chyfeiriad y prosiect yn hytrach na chanolbwyntio ar yr elfennau technegol.

3.5 Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar y defnydd o'r MoDS ar draws y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn rheolaeth y prosiect MoDS gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion/twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae swyddogion y tîm prosiect wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cynhyrchu amserlen ar gyfer ymgysylltu a dosbarthiad y MoDS.
- Cynhyrchu amserlen ar gyfer y camau technegol olaf i gael y system yn fyw.
- Cynhyrchu log risgiau ac adrodd ar risgiau'r prosiect i'r Bwrdd Prosiect.
- Paratoi log gwersi a ddysgwyd ar gyfer y prosiect a pharhau i'w lenwi ble'n addas tan derfyn y prosiect.
- Ail-ymweld a ffigyrau'r amcan arbediad a monitro defnydd y MoDS i gael ffigwr bras o'r gwir arbediad.
- Paratoi strategaeth ymgysylltu a'i weithredu cyn ac yn ystod dosbarthiad y MoDS.

Atodiad 2

**DERBYN TYSTLYTHYRAU, PROFION HUNANIAETH A THYSTIOLAETH O GYMWYSTERAU CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Polisi Recriwtio a Phenodi Corfforaethol y Cyngor wedi ei sefydlu gyda'r bwriad pennaf o benodi'r swyddogion gorau i swyddi'r Cyngor. Ni wneir penodiadau os nad yw'r ymgeisydd yn cyfarfod y gofynion 'Manylion y Person'.

1.2 Mae Rhan 15 o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 yn nodi bod pob cyflogwr yn y Deyrnas Unedig yn cynnal archwiliadau sylfaenol o ddogfennau pob unigolyn maent yn bwriadu ei gyflogi. Trwy wneud yr archwiliadau hyn, gall y cyflogwr fod yn fodlon nad ydynt yn torri'r gyfraith trwy gyflogi gweithwyr anghyfreithlon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio gyda threfniadau recriwtio a phenodi staff yr Awdurdod mewn perthnasedd â derbyn tystlythyrau, profion hunaniaeth a derbyn tystiolaeth o gymwysterau.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o benodiadau newydd ar draws adrannau'r Cyngor a weinyddir gan Wasanaeth Cefnogol, Cefnogaeth Gorfforaethol a sicrhau bod tystiolaeth ddigonol wedi ei dderbyn ar gyfer profi hunaniaeth a chymwysterau yn ogystal â bod tystlythyrau priodol wedi eu derbyn ym mhob achos. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys penodiadau'r Adran Addysg, Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol nag ychwaith Gwasanaeth Gofal Cymunedol oherwydd bod ganddynt drefniadau gweinyddu eu hunain.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod trefniadau mewn lle ond nid ydynt yn derbyn y sylw angenrheidiol. Mae swyddogion wedi eu penodi i weinyddu'r drefn ond mae'n hanfodol bod holl swyddogion y Cyngor yn cydweithio â hwy.

3.1.1 Mae'r ohebiaeth cadarnhau dyddiad ac amser cyfweliad yn nodi ei fod yn hanfodol bod yr ymgeisydd yn dod ag unrhyw dystysgrifau neu dystiolaeth o gymwysterau y gofynnir amdanynt yn y 'Manylion Person' yn ogystal â phrawf o'u hunaniaeth gyda hwy i'r cyfweliad. Cyfrifoldeb y Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol yw sicrhau bod y dystiolaeth yn briodol, fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn y mwyafrif o achosion.

3.1.2 Cymhorthyddion Adnoddau Dynol sydd yn gyfrifol am wneud cais am dystlythyrau i'r Canolwyr, hwy hefyd sydd yn eu derbyn cyn eu cyflwyno i'r Rheolwyr perthnasol. Mewn rhai achosion nid ydynt yn derbyn tystlythyrau ac mae angen dilyn y rhain i fyny a all fod yn drafferthus. Os oes cyfnod yn mynd heibio heb dderbyn tystlythyr yna maent yn gofyn i'r Rheolwr cael gair gyda'r ymgeisydd ac efallai yn gofyn iddynt am Ganolwr arall. Os yw'n ymgeisydd allanol, bydd angen i'r Rheolwr gwblhau asesiad risg ar eu cyfer hyd y derbynnir y tystlythyr. Gweinyddir yr un drefn ar gyfer swyddogion mewnol, ond un tystlythyr yn unig sydd ei angen gan y Rheolwr cyfredol. Yn ogystal, os yw'r swyddog yn derbyn dyrchafiad nid oes angen tystlythyr gan mai'r un Rheolwr fydd ganddynt.

3.1.3 Detholwyd sampl o 20 unigolyn oedd wedi derbyn swydd newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwiriwyd eu ffeiliau personél am dystiolaeth o'u cymwysterau, tystlythyrau a phrawf o'u hunaniaeth a darganfuwyd y canlynol:
a) tystiolaeth o gymwysterau ar gyfer 10 yn y sampl ond nid oedd cofnod yn ffeiliau'r gweddill a all olygu bod swyddogion mewn swydd heb y cymwysterau gofynnol;
b) tystlythyrau wedi eu derbyn ar gyfer 10 yn y sampl ond nid oedd angen tystlythyrau ar gyfer 7 arall yn y sampl oherwydd ymddengys mai dyrchafiad neu secondiad oeddynt wedi derbyn. Ni welwyd unrhyw dystlythyrau ar gyfer y 3 arall yn y sampl. Yn ogystal gwelwyd bod un o'r tystlythyrau a wiriwyd ddim yn briodol ac wedi cael ei gwblhau gan Gyfrifydd yr unigolyn.
c) prawf o hunaniaeth wedi ei gynnal ar gyfer 13 unigolyn yn y sampl.

3.1.4 Mae trefniadau newydd wedi dod i rym ers dechrau 2018. Yn dilyn penodiad bydd yr unigolyn yn derbyn cais gan Cymhorthyddion Adnoddau Dynol i ddod i Siop Gwynedd gyda thystiolaeth o'u hunaniaeth a'u cymwysterau os yn berthnasol. Yn ogystal, bydd y swyddogion yn derbyn ffurflenni DBS yr unigolion (os yn berthnasol) ar yr un pryd, fel bod modd symud y broses ymlaen yn gynt. Roedd yn anorfod dod â'r trefniadau yma yn i rym oherwydd methiant ar ran rheolwyr i dderbyn tystiolaeth.

3.1.5 Holwyd sampl o Reolwyr ar draws Adrannau'r Cyngor ynglŷn â'u trefniadau derbyn tystlythyrau ac os ydynt yn dilyn unrhyw ganllaw penodol. Mynegwyd nad oes ganddynt ganllaw ffurfiol i'w ddilyn ond roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o'r angen i dderbyn tystlythyrau.

3.1.6 Darganfuwyd wrth wirio mewnrwyd y Cyngor, yn benodol safle Tystlythyrau (FAQ) - mynegir os na dderbynnir tystlythyrau o fewn cyfnod o fis i'r penodiad bydd gan y Cyngor yr hawl i dynnu'r swydd yn ôl. Fodd bynnag, ym mholisi '1.6 Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol', mynegir yn rhan 1.11 *"bydd y Cyngor yn caniatáu i unigolyn ddechrau yn y swydd mewn sefyllfa ple na dderbyniwyd tystlythyrau ond cyfyngir y cyfnod ar gyfer derbyn y tystlythyrau i ddau fis yn dilyn dyddiad cychwyn y gweithiwr yn y swydd".* Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol bod y wybodaeth yn anghyson a bod angen ei addasu fel ei fod yn gyson gyda'r Polisi Datgelu Troseddau. Mae'r FAQ's hefyd yn nodi mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod y Cyngor yn derbyn tystlythyrau o fewn cyfnod o fis o'u penodiad sydd hefyd ddim yn gywir. Fodd bynnag, dylid nodi bod y dudalen yma yn y broses o gael ei datblygu.

3.1.7 Nid yw categori barn yr archwiliad yn adlewyrchiad ar waith Gwasanaeth Cefnogol y Cyngor ond yn hytrach diffyg gweithrediad priodol o safbwynt Rheolwyr y Cyngor.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau derbyn tystlythyrau, profion hunaniaeth a thystiolaeth o gymwysterau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol i barhau gyda'r trefniadau newydd o dderbyn tystiolaeth.
- Sicrhau bod y wybodaeth ar dudalen Tystlythyrau (FAQ) yn gyson gydag beth sydd wedi ei nodi ym mholisi Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol.

Atodiad 3

**INCWM CINIO YSGOL**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefn ble gall rhieni neu warchodwyr disgyblion ysgolion cynradd ac arbennig dalu am nwyddau neu wasanaethau i'w plant ar lein, megis costau prydau bwyd, gwersi offerynnau cerdd ayb. Y gobaith yw y buasai'r drefn yma'n hwyluso'r broses talu, casglu a gweinyddu incwm, fydd yn y pen draw yn disodli'r drefn o gasglu arian parod a sieciau yn yr ysgol a'r gwaith gweinyddiaeth di-ri sydd ynghlwm â'r gyfundrefn bresennol.

1.2 Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, holl ysgolion cynradd ac arbennig y sir a chwmni Cynnal. Mae'r drefn newydd yn cwmpasu derbyn incwm ar-lein drwy wefan School Gateway, ble gellir ei weinyddu drwy system Schoolcomms. Mae'r system wedi ei integreiddio gyda system gyfredol Addysg, SIMS (a'r modiwl *dinner money*), sy'n golygu bod modd cysylltu manylion presenoldeb y plant gyda'r costau sy'n ddyledus, yn ogystal â hysbysu gweithwyr arlwyo faint o brydau i baratoi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y drefn o fabwysiadu system talu ar-lein yn cwrdd ag anghenion holl rhan-ddeiliadau y system, gan gynnwys yr ysgolion, rhieni neu warchodwyr ac y Cyngor, drwy fynychu cyfres o gyfarfodydd cynnydd gyda swyddogion y prosiect.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae nifer o fuddion yn deillio o fabwysiadu system effeithiol o dderbyn taliadau yn electroneg yn hytrach na drwy arian parod a sieciau yn yr ysgolion. Mae'n galluogi rieni neu warchodwyr i wneud taliadau ar-lein ar unrhyw adeg, sy'n osgoi'r risgiau sy'n deillio o roi'r arian i'r disgyblion i'w talu i'r clerc cinio, megis colli arian drwy ddamwain neu fwlio, gwario'r pres ar nwyddau gwahanol neu wahaniaethu rhwng y plant sy'n derbyn cinio am ddim.

3.2 Mae'r gwaith gweinyddu arian parod a sieciau yn yr ysgolion yn feichus iawn. Mae angen casglu'r arian, ei gofnodi ac yna ei fancio. Mae wedyn yn ofynnol i adrodd i'r Cyngor fanylion yr hyn gaiff ei fancio, e.e. prydau a werthwyd, lefelau dyledion ayyb. Buasai system effeithiol yn cyfrifo, cofnodi a bancio arian yn syth, gan gynhyrchu'r adroddiadau pwrpasol awtomatig i'r Cyngor.

3.3 Ar amser yr archwiliad, roedd y gallu i dalu yn electroneg eisoes yn weithredol, ond roedd yr opsiwn i dalu gyda arian parod neu siec yn parhau. Golyga hyn bod dwy drefn yn weithredol ag elfennau o ddyblygu gwaith. Mae'n rhesymol bod cyfnod o amser rhwng y ddau drefniant er mwyn rhoi cyfle i rieni ymgyfarwyddo â'r system newydd ac i annog y rhai sy'n gyffredinol amharod neu heb y gallu i dalu ar-lein, ond mae angen cynlluniau pendant i weithredu yn llawn, gan gynnwys amserlen a chynlluniau i annog rhieni neu warchodwyr i'w defnyddio.

3.4 Ar hyn o bryd, mae'r arian gaiff ei dalu ar-lein yn mynd i gyfrif dros dro'r Uned Incwm. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r Uned Incwm adnabod pa godau y dylid trosglwyddo'r incwm iddynt, felly roedd yr arian yn cronni ynddo. Ymddengys bod modd rhedeg adroddiadau i'r pwrpas hyn, ond nad oedd hyn yn wybodus i'r Uned Incwm hyd nes cyfarfod diweddar gyda Cynnal. Mae trefniant dros dro bellach mewn lle ble fydd yr adroddiadau yn cael eu cynhyrchu a'u anfon at yr Uned Incwm hyd nes i'r codau incwm cael eu integreiddio i'r system dros yr Haf, fel gall yr arian fynd yn syth i'r codau heb ymyrraeth swyddogion. Fodd bynnag, disgwylir y buasai gwendidau o'r fath fod wedi eu hadnabod yn ystod y cyfnod datblygu a chyn i'r system fynd yn fyw.

3.5 Gall y system newydd gael ei defnyddio i gasglu incwm at gronfa answyddogol yr ysgolion yn ogystal. Mae'r gronfa yma yn annibynnol o gyfrifon y Cyngor, a derbynnir arian iddo drwy e.e. rhoddion, cyfraniadau a gweithgareddau codi arian. Gan mai arian answyddogol yr ysgol ydyw, nid yw'n destun rheolaethau monitro, gwariant a bancio o'r un raddfa a chyfrifon ariannir gan y Cyngor. Mae manylion cyfrifon banc wedi eu sefydlu yn barod fel gall arian penodol gael ei dalu i un ai cyfrif y Cyngor neu i'r gronfa answyddogol. Fodd bynnag, darganfuwyd gall defnyddwyr Schoolcomms greu cyfrifon banc newydd a sefydlu bod ffrydiau incwm yn mynd i'r cyfrif hwnnw. Gall hyn arwain at dwyll, a petai colled i'r gronfa answyddogol yna buasai'n ddibynnol ar drefniadau unigol yr ysgol i'w hadnabod, yn sgil monitro hyd fraich y Cyngor.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**Tybir ei fod yn gynamserol i roi barn swyddogol gan nad oedd y system yn gwbl weithredol ar amser yr archwiliad. Mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau i hybu talu ar lein ar Facebook a Twitter y Cyngor. Mae'r Adran Addysg yn y broses o greu fideo i'w rannu gydag ysgolion a fydd yn dangos y broses o sut i dalu ar lein. Bydd ysgolion yn gallu ei arddangos yn ei ysgolion, ei rannu ar Facebook ysgolion ac ar e-byst i rieni.
- Parhau i drafod gyda chwmni Schoolcomms am weithrediad ar y broses codio incwm yn y tymor byr ac yn y hirdymor.
- Holi cwmni Schoolcomms am y rheolaethau sydd mewn lle mewn perthynas ag agor cyfrif banc newydd, gan ystyried os ydynt yn ddigonol.

Atodiad 4

**HYLENDID BWYD**
**AMGYLCHEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae pob busnes bwyd yn derbyn archwiliad gan Swyddog Diogelwch Bwyd, sy'n canolbwyntio ar ymarferion hylendid wrth ymdrin â bwyd, cyflwr yr adeilad a sut mae'r busnes yn cael ei reoli. Bydd y mwyafrif o'r eiddo a archwilir yn derbyn sgôr, sy'n ofynnol iddynt arddangos mewn man priodol. Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd, ble mae dros 2,000 o fusnesau bwyd wedi eu cofrestru.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer darparu gwasanaeth effeithiol i fusnesau a defnyddwyr Gwynedd.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ar gyfer cynllunio, cynnal a gweinyddu ymweliadau hylendid bwyd, gan wirio fod unrhyw argymhellion gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi eu gweithredu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle gan ystyried lleihad adnoddau y gwasanaeth, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Nid yw pob dogfen yn cael ei lwytho ar CIVICA (system Amgylchedd), gan y gwelwyd sawl achos ble roedd dogfennau ar goll. Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) y byddai'n atgoffa'r Swyddogion o'r angen i gofnodi popeth ar CIVICA. Fodd bynnag, ychwanegodd fod eu hamser ar gyfer gwaith gweinyddol yn brin, gyda'r rhan helaeth o'u horiau gwaith yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal ymweliadau. Cytunodd y byddai'n trefnu i fonitro ansawdd eu gwaith yn fisol o hyn ymlaen.

3.1.2 Os nad yw busnes bwyd yn hapus gyda'u sgôr hylendid bwyd, gellid gwneud cais am ail-sgorio, am ffi o £150. Mae ceisiadau am ail-sgorio ble talwyd gyda siec yn cael eu gweithredu cyn i'r taliad gael ei brosesu. Gwelwyd fod sieciau yn cael eu cofnodi ar ffurflenni TR34, ond heb eu hanfon i'r Arianwyr i'w prosesu am hyd at wythnos, gyda'r cais am ail-sgorio wedi ei weithredu yn y cyfamser. Cadarnhaodd y Gwasanaeth nad oedd ceisiadau am ail-sgorio i'w cynnal hyd nes fod taliad wedi ei brosesu. Caiff Swyddogion eu hatgoffa o'r drefn cywir ar e-bost yn y dyfodol agos.

3.1.3 Nid yw pob Swyddog Diogelwch Bwyd yn cofnodi yn amserol eu bod wedi cyflawni'r 10 awr o hyfforddiant sy'n ofynnol iddynt gwblhau yn flynyddol. Mae'r Swyddogion yn gyfrifol am gofnodi eu hyfforddiant ar iGwynedd, gan ddarparu tystysgrifau i gefnogi hynny. Detholwyd sampl o 5 Swyddog, gyda 2 ohonynt wedi cofnodi dim ond 1.5 awr o hyfforddiant perthnasol am y llynedd, heb unrhyw dystysgrifau wedi eu cyflwyno. Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) nad oedd hyn yn cael ei fonitro, ond ei fod yn ofynnol i'r Swyddogion ymaelodi gyda Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn flynyddol, a bod rhaid profi o leiaf 10 awr o hyfforddiant datblygol parhaus ar gyfer gwneud hynny. Erbyn cyfarfod gyda'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) yn ddiweddar, gwelwyd fod y Swyddogion hynny wedi diweddaru eu cofnodion, gyda rhai tystysgrifau wedi eu cyflwyno. Dywedodd y byddai'n eu hatgoffa o'r angen i ddiweddaru eu cofnodion yn rheolaidd, nid yn achlysurol.

3.1.4 Nid yw'r drefn o gynnal ymyraethau yn cael ei ddilyn fel y gofyn ar bob achlysur. Gwelwyd fod nifer o fusnesau bwyd heb eu hysbysu o ganlyniad yr ymweliad o fewn yr 14 diwrnod disgwyliedig. Yn yr un modd, gwelwyd nag ymdrinir â phob cwyn yn amserol. Ar gyfer un cwsmer, ni welwyd cofnod fod ymateb wedi ei ddarparu o gwbl. Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) y byddai'n atgoffa'r Swyddogion o'r angen i ddilyn y drefn yn gyflawn ar bob achlysur.

3.1.5 Gwelwyd fod pob ymdrech wedi ei wneud i weithredu ar argymhellion yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dilyn eu harchwiliad yn 2016. Cafwyd dilyniant yn ddiweddar, ond cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) nad oes adroddiad wedi ei dderbyn eto.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau'r adran gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles) wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Atgoffa'r Swyddogion i lwytho pob dogfen ar CIVICA.
- Monitro ansawdd gwaith y Swyddogion yn fisol.
- Sicrhau nad yw ceisiadau am ail-sgorio yn cael eu gweithredu hyd nes bod taliad wedi ei brosesu.
- Prosesu ffurflenni TR34 yn gynt er mwyn sicrhau bod taliad wedi ei brosesu cyn ail-ymweld a busnes.
- Atgoffa'r Swyddogion i ddiweddaru eu cofnodion hyfforddiant yn rheolaidd.
- Sicrhau fod y Swyddogion yn ymwybodol o'r drefn cyfathrebu i'w dilyn wrth gynnal ymyraethau ac wrth ddelio gyda chwynion.

Atodiad 5

**MANDDALIADAU**
**AMGYLCHEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn berchen ar 49 o fanddaliadau, sef unedau cymharol fach o dir ac eiddo caiff ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddol. Caiff y manddaliadau yma, sy'n gyfanswm o 3,135 acer, eu rhentu allan i denantiaid am incwm o oddeutu £200,000 yn flynyddol. Rheolir y manddaliadau gan y Gwasanaeth Eiddo.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer casglu incwm manddaliadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trafodion incwm perthnasol o'r cyfriflyfr gan sicrhau bod y tenantiaid yn cael eu hanfonebu yn briodol a bod trefn mewn lle o fonitro'r taliadau a wneir.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae trefniadau ar y gweill i osod manddaliadau dan drefn reolaeth newydd gyda chyllideb "ring-fenced" o'r flwyddyn ariannol 2018/19 ac i'r perwyl hynny, cytunwyd y buasai'n ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau Archwilio Mewnol i ailymweld â'r maes drwy gynnal archwiliad o'r gyfundrefn newydd maes o law. I'r perwyl yma, cyfyngwyd yr archwiliad yma at y broses incwm. Echdynnwyd o'r cyfriflyfr drafodion incwm manddaliadau dros sawl blwyddyn, gan wirio bod anfonebau wedi eu creu yn rheolaidd a bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a derbyn yr incwm yn brydlon.

3.1.1 Dengys y cyfriflyfr bod y Cyngor yn codi anfonebau drwy filio cylchol, '*recurring billing*', sy'n golygu cynhyrchir anfonebau yn awtomatig ar amser penodol o'r flwyddyn, a hynny am nifer penodol o flynyddoedd yn unol â'r les cyfredol, ond roedd rheolaethau o fewn y system ariannol yn cyfyngu nifer y blynyddoedd y gellid gwneud hyn. Er bod bilio cylchol yn rheolaeth dda er mwyn sicrhau caiff anfonebau eu codi, efallai bod gormod o ddibyniaeth wedi cael ei roi ar y drefn i edrych ar ôl ei hun, a bod methiannau ddim yn cael eu darganfod. Gwelwyd anfoneb am £7,500 a godwyd ar y 25/06/13, sef taliad cronnus am rent tair blynedd am Uned 5255 (rhif *job*), gan fod y bilio cylchol rhwng 11/01/10 a 12/01/14 heb ddigwydd. Gwelwyd hefyd anfoneb am £20,700 ar 30/10/17 ar gyfer Uned 5309 oherwydd methiant i godi anfonebau am £6,900 ar 28/05/15 a 28/05/16. Mae'r cwsmer wedi bod yn talu £575 y mis, ond bellach yn talu £625, sy'n golygu ar y raddfa yma bydd yn cymryd 23 mlynedd i dalu'r ôl-ddyled o £13,800.

3.1.2 Ymddengys bod y bilio cylchol wedi methu oherwydd bod y cyfnod caiff anfonebau eu codi drwy bilio cylchol, oedd yn gyfyngedig o fewn y system ariannol, wedi dod i ben, ac yn anffodus nid oedd trefniadau monitro'r Gwasanaeth Eiddo na'r Adran Gyllid wedi darganfod hyn. Yn sgil hyn, dechreuodd yr Uned Incwm gynhyrchu adroddiadau cyfnodol er mwyn adnabod pryd mae bilio cylchol manddaliadau (ynghyd ag eraill) yn dod i ben, a'u hadnewyddu yn unol â termau'r les gyfredol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau fel rhan o'r archwiliad yma, darganfuwyd ei fod yn bosib ehangu'r cyfnodau bilio cylchol yn y system ymhell i'r dyfodol ac felly mae trefniadau mewn llaw i gynyddu cyfnodau bilio cylchol manddaliadau yn unol â hynny. Bydd hyn yn lliniaru'r risg o fethiant i godi bil ar denant.

3.1.3 Gwelwyd nodyn credyd am £4,800 ar 30/03/11 gan fod y tenant wedi gadael Uned 5332 ers Mawrth 2009, a nodiadau credyd am gyfanswm o £19,500 ar 27/05/15 gan fod y tenant wedi gadael Uned 5260 ers 27/05/13. Mae'r methiant i ganslo'r biliau cylchol a'r angen i godi nodiadau credyd yn awgrymu bod gwendidau yn y broses monitro tenantiaeth. Fodd bynnag, eglurodd yr Uned Incwm bod rhai trefniadau bilio cylchol wedi cael eu rhaglennu am gyfnodau hirach na'r les, er mwyn sicrhau bod anfonebau yn cael eu codi, gan ei bod yn haws codi nodyn credyd fel yr angen yn hytrach na chreu risg o fethu codi anfoneb. Oherwydd bod modd ehangu cyfnodau bilio cylchol ymhell i'r dyfodol, mae bwriad gweithredu fel hyn ar gyfer pob prydles.

3.1.4 Petai anfoneb yn hwyr yn cael ei thalu, yna bydd trefniadau adennill arferol y Cyngor yn ymgyrchu i adennill y ddyled. Fodd bynnag, dengys adroddiadau'r cyfriflyfr a chofnodion yr Uned Incwm bod oediadau hir yn gallu digwydd rhwng codi anfoneb a derbyn taliad, gyda phrydlondeb talu'r tenantiaid wrth reswm yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai anfonebau yn gorfod cael eu hysgrifennu i ffwrdd, gan gynnwys nifer o anfonebau am ôl-rhent rhwng 25/03/09 a 25/03/11 ac un achos ble fydd dyled gronnus o £38k dros nifer o flynyddoedd yn cael ei ddileu, a hynny oherwydd methiant i ail-feddiannu Uned 5329 gan nad oedd les mewn lle, er gwaethaf ymdrechion Cyfreithiol i'w hadennill. Fodd bynnag, gosodwyd y trefniant yma dan broses hanesyddol a ni ddisgwylir i'r un methiannau ail-ymddangos yn y dyfodol.

3.1.5 Ymddengys felly bod angen cryfhau trefniadau monitro incwm yn y gyfundrefn newydd, drwy sicrhau bod anfonebau yn cael eu cynhyrchu yn unol â'r cytundeb ac ymgorffori statws a phrydlondeb talu anfonebau i'r drefn monitro, er mwyn gallu delio gyda drwg-dalwyr cyn i'r ddyled gronni yn ormodol. Wrth gwrs, mae rhai tenantiaid yn well na'i gilydd, ond ymddengys nad yw'r drefn o dalu mewn rhandaliadau yn creu yr un trafferth.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(CH) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau incwm manddaliadau gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Uned Incwm i ehangu cyfnodau bilio cylchol.
- Uned Incwm a'r Gwasanaeth Eiddo i gytuno ar y paramedrau ar gyfer adroddiadau rheolaeth gyllidebol.
- Mabwysiadu system TF ar gyfer rheoli prydlesi.
- Uned Incwm a'r Gwasanaeth Eiddo i gyfarfod yn chwarterol er mwyn trafod sefyllfa'r cytundebau, gan gynnwys dyledion.

Atodiad 6

**CYNLLUNIAU ADEILADU YSGOLION – YSGOL GLANCEGIN**
**AMGYLCHEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Rhoddwyd tendr allan ym mis Tachwedd 2015 ar gyfer dewis contractwyr i adeiladu Ysgol newydd Glancegin, Bangor. Penodwyd cwmni Wynne Construction i ymgymryd â'r gwaith a gychwynnwyd yn Haf 2016. Mae'r Ysgol bellach ar agor ond mae gwaith yn parhau tu allan i'r Ysgol ar y tirlunio a mynediad i adeilad a thir yr Ysgol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaeth gyllidebol a chynnydd prosiect adeiladu Ysgol Glancegin yn ddigonol, gan sicrhau bod trefniadau priodol y broses tendro wedi eu dilyn, bod taliadau i gontractwyr sydd ynghlwm â'r prosiect yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn a bod y taliadau wedi'u cyfrifo'n gywir gyda dogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae'r cytundeb gwreiddiol werth £4,439.000. Gwelwyd fod trefniadau cadarn ar y cyfan er mwyn rheoli'r prosiect ond fod posib tynhau ar rai agweddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

3.1.1 Gwahoddwyd 6 o'r cwmnïau a oedd ar Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru (NWCF) i gyflwyno tendr am y gwaith ond dau yn unig a gyflwynodd dendr. Nid yw'r fframwaith wedi cael yr effaith ddisgwyliedig yng Ngwynedd hyd yma ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nid oedd Gwynedd yn fodlon â'r telerau cychwynnol ar gyfer yr ail fersiwn o'r fframwaith ond yn dilyn trafod a negodi, penderfynwyd parhau yn rhan o'r fframwaith. Y nòd yw rhannu arbenigedd o fewn y sector a datblygu buddion cymunedol o fewn Gwynedd gan hefyd gynnwys cwmnïau/contractwyr llai.

3.1.2 Y Rheolwr Datblygu Eiddo yn unig oedd wedi arwyddo'r ddogfen sgorio terfynol. Disgwylir i bob unigolyn sy'n rhan o'r broses lofnodi'r dogfennau/cofnodion yma. Fodd bynnag, cynhaliwyd y broses sgorio yn ôl yn Rhagfyr 2015 ac mae'r Rheolwr Prosiect eisoes wedi cytuno i weithredu ar y cam yma yn dilyn archwiliad a gwblhawyd yng Ngorffennaf 2016. Yn ystod archwiliad dilyniant eleni, gwelwyd ddogfen sgorio, dyddiedig Chwefror 2017 yn cadarnhau fod y cam cytunedig yma yn cael ei weithredu.

3.1.3 Roedd rhai o'r taliadau ar gyfer yr 'interim valuations' yn hwyr o gymharu â'r dyddiad cyhoeddi a dyddiad dyledus ar y 'valuations'. Fodd bynnag gwelwyd nad oedd y 'valuations' wedi eu derbyn gan Wynedd am nifer o ddyddiau wedi'r dyddiad cyhoeddi. Gwelwyd fod addasiad wedi ei wneud i'r cytundeb i adlewyrchu'r sefyllfa a'r telerau ynglŷn â dyddiad talu a oedd yn nodi y dylai'r taliadau gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod o dderbyn y 'valuations' yn hytrach na erbyn y dyddiad dyledus.

3.1.4 Roedd rhaid addasu'r cynlluniau a chynnal gwaith ychwanegol gan nad oedd rhai elfennau o'r cynlluniau gwreiddiol a dyluniadau'r pensaer yn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch. O ganlyniad mae rhai elfennau o'r adeiladu wedi gorfod cael eu hail wneud a Gwynedd yn gyfrifol am y costau ychwanegol. Buasai ymgynghori yn gynharach yn y broses a derbyn mewnbwn cyson gan Iechyd a Diogelwch yn osgoi sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol. Amlygwyd fod prosiectau eraill cyfredol wedi cychwyn y broses yma o ymgynghori a chydweithio eisoes. Y bwriad yw un ai osgoi problemau neu eu darganfod yn gynharach yn ystod yr adeiladu er mwyn lleihau'r oblygiadau ar gyllideb ac amser/cynnydd y prosiect.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli prosiect adeiladu Ysgol Glancegin gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Rheolwr Prosiect wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Ymgynghori â swyddogion Iechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd yn gynharach yn y broses ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

**INCWM MEYSYDD PARCIO**
**AMGYLCHEDD**

## 1. Cefndir

1.1 Mae incwm meysydd parcio Gwynedd yn cael ei gasglu a'i gyflwyno i'r banc gan gwmni Security+. Mae pob swm gaiff ei gyflwyno i'r banc yn cael ei brosesu i gyfrif dros dro yr Uned Incwm, hyd nes derbynnir adroddiad gan Security+ yn datgan pa feysydd parcio mae'r incwm yn berthnasol iddo.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer casglu, monitro a phrosesu'r incwm a gesglir o feysydd parcio Gwynedd. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o incwm gan wirio ei fod wedi ei brosesu'n amserol a chywir yng nghyfrifon y Cyngor.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Yn gyffredinol, gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer casglu a monitro incwm meysydd parcio, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Gwelwyd fod yr incwm yn cael ei gyflwyno i'r banc gan Security+ o fewn deuddydd o'i gasglu. Fodd bynnag, er bod depo 'Hanley' yn bancio un swm, sy'n cysoni gyda'r adroddiad anfonir i'r Uned Incwm, nid yw 'Leigh' yn darparu yr un gwasanaeth. Gall dau neu dri o symiau a fanciwyd fod angen eu cyfuno ar gyfer eu cysoni gyda'r adroddiad. Yn y gorffennol roedd hyn yn ei wneud yn anodd i adnabod yr incwm, ac felly yn arwain at oediad o fisoedd cyn ei brosesu i'r cyfriflyfr. Erbyn hyn mae Security+ yn anfon e-bost at y Swyddog Prosesu a Chysoni Incwm sy'n cadarnhau pa symiau sydd yn cyd-fynd gyda'r adroddiadau. Gwelwyd fod yr incwm ar gyfartaledd yn cael ei brosesu yn bresennol o fewn 10 diwrnod.

3.1.2 Gwelwyd gall yr adroddiadau a dderbynir gan Security+ fod yn gymhleth i'w deall, gan fod y wybodaeth yn cael ei osod allan dros ddwy res gyda dau rif peiriant wedi ei ddyfynnu ar gyfer un swm, sy'n creu ansicrwydd o ba incwm sydd yn perthyn i ba beiriant. Detholwyd sampl o 20 adroddiad, a gwelwyd nad oedd 5 ohonynt wedi dyfynnu rhif peiriant ar gyfer rhai o'r trafodion. Cadarnhaodd y Swyddog Prosesu a Chysoni Incwm fod achosion o'r fath yn cael eu prosesu i'r cyfriflyfr fel gwarged a diffyg. Ni wneir unrhyw ymholiadau i adnabod yr incwm. Mae canran o incwm rhai meysydd parcio yn cael ei dalu i'r Cynghorau Tref, felly mae'n hanfodol fod yr incwm yn cael ei gofnodi yn erbyn y peiriannau cywir. Cytunodd y Swyddog Prosesu a Chysoni Incwm y byddai'n holi Security+ o hyn ymlaen am unrhyw drafodion nad oedd rhif peiriant wedi ei ddyfynnu ar eu cyfer, a cytunodd y Rheolwr Gorfodaeth Parcio i wneud ymholiadau gyda Security+ mewn perthynas â symleiddio'r adroddiadau.

3.1.3 Detholwyd sampl o 10 maes parcio gan wirio fod y peiriannau wedi eu gwagio yn unol â’r amserlen gytunwyd. Gwelwyd fod rhai casgliadau wedi eu methu ar draws y sampl gyfan, gyda nifer o gasgliadau yn cael eu cynnal ar ddiwrnodau gwahanol i’r hyn a gytunwyd. Er hyn, roedd y Rheolwr Gorfodaeth Parcio yn ffyddiog fod rhesymau dilys dros y casgliadau wedi eu methu, megis fod Security+ wedi cael trafferth agor y peiriant. Cadarnhaodd fod Security+ yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw gasgliadau a fethwyd, gan drefnu i’w gwagio y diwrnod wedyn. Ychwanegodd mai casgliadau meysydd parcio’r Galeri a Ffordd y Felin yn unig sydd yn cael eu monitro, gan fod y Cyngor yn derbyn ffi am gasglu’r incwm yma ar ran cwmnïau allanol, ac felly angen talu’r arian a gesglir yn ôl iddynt.

3.1.4 Mae tocyn prawf yn cael ei gynhyrchu ar bob achlysur wrth wagio’r peiriannau, sydd yn cadarnhau'r swm a ddylai fod ynddo. Fodd bynnag, nid oes trefn o sicrhau fod yr hyn a gesglir yn cytuno gyda’r tocyn prawf. Mewn achosion nad oes modd printio tocyn prawf, mae gan y Rheolwr Gorfodaeth Parcio y gallu i brintio’r 10 tocyn diwethaf. Caiff y wybodaeth ar y tocyn prawf ei hailadrodd ar yr adroddiadau parcio, felly gellid gweld yn syth pan fo unrhyw wahaniaethau. Cadarnhaodd y Rheolwr Gorfodaeth Parcio fod prinder adnoddau yn golygu mai anghysondebau’r Galeri a Ffordd y Felin yn unig gaiff eu hymchwilio. Gwiriwyd fod y symiau a gyflwynwyd i’r banc yn cytuno ar 30 o docynnau prawf, a gwelwyd un peiriant yn brin o dros £400.

3.1.5 Nid yw’r wybodaeth a dderbynnir gan Security+ yn ddigonol i’r Uned Cyllid Amgylchedd wirio fod incwm meysydd parcio yn y cyfriflyfr yn cytuno gyda’r hyn sydd wedi ei gyflwyno i’r banc gan Security+. Ar hyn o bryd, nid yw’r ffigwr cyflwynwyd i’r banc wedi ei gofnodi ar unrhyw adroddiad. Cadarnhaodd Rheolwr Cyllid Amgylchedd anghenion yr uned, gyda’r Rheolwr Gorfodaeth Parcio yn cytuno i ymholi Security+.

3.1.6 Nid oes cofnod manwl yn cael ei gadw o gynnwys y cyfrif dros dro. Mae pob incwm cyflwynwyd i’r banc yn cael ei brosesu i gyfrif dros dro yr Uned Incwm (ynghyd ag unrhyw daliadau eraill anhysbys sydd wedi cyrraedd y banc), hyd nes bydd yr adroddiad parcio cyfatebol wedi ei dderbyn. Gwelwyd mai balans y cyfrif dros dro ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 oedd -£5,838, ble roedd £760,851 ynddo hyd at ddiwedd Ionawr 2018. Mae hwn yn cynnwys pob taliad anhysbys sydd wedi cyrraedd y banc, nid incwm meysydd parcio yn unig.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau derbyn incwm meysydd parcio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r unedau/gwasanaethau wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau fod ymholiadau yn cael eu gwneud i adnabod unrhyw incwm ble nad oes rhif peiriant wedi ei ddyfynnu ar ei gyfer.
- Ymchwilio a chadw cofnod o unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng yr hyn cyflwynwyd i’r banc a chyfanswm y tocynnau prawf.
- Gwneud ymholiadau gyda Security+ mewn perthynas â derbyn adroddiadau digonol ar gyfer Cyllid Amgylchedd.
- Sicrhau fod cofnod manwl yn cael ei gadw o’r cyfrif dros dro.
- Ystyried y buddiannau ariannol o barcio cerbydau’r Cyngor tu mewn i faes parcio Aml Lawr Doc Fictoria, Caernarfon.

Atodiad 8

# CRONFA BENSIWN – DATGANIADAU BLYNYDDOL
# CYLLID

## 1. Cefndir

1.1 O 2018 ymlaen, caiff datganiadau buddion eu llwytho i'r porth Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA - https://aelodau.cronfabensiwngwynedd.org.uk) yn hytrach na chael eu hargraffu a'u hanfon at holl aelodau'r gronfa. Ceir mynediad i'r porth hwn drwy ddilyn 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nodau'r newid yw galluogi aelodau'r gronfa i gynllunio a rheoli eu hymddeoliadau yn well, gwneud arbedion drwy leihau costau argraffu a phostio, yn ogystal â lleihau ôl troed carbon y Gronfa. Anfonodd Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa) gylchlythyr i'w haelodau fel atodiad i'r datganiad buddion ar gyfer y flwyddyn dreth 2016/17. Ynddo, nodir bod y Gronfa am newid i gyfathrebu electronig ac na fydd datganiadau papur yn cael eu hanfon at aelodau'r Gronfa os nad ydynt yn cadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn dymuno i barhau i'w derbyn.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i reoli'r newid o ddatganiadau ysgrifenedig i aelodau'r gronfa bensiwn i system ar-lein. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio unrhyw anghydfodau rhwng beth gynigai'r hen ddatganiadau a'r system ar-lein newydd, y broses o drawsnewid o un system i'r llall yn ogystal â gwirio effeithiau ariannol y newid.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd copïau o'r datganiad a chylchlythyr anfonwyd yn Awst 2017. Roedd y wybodaeth am y newid o ddatganiadau papur i ar-lein yn glir ac roedd cyfarwyddiadau amlwg i aelodau'r gronfa o sut i gofrestru ar HWA. Nodir yn y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013, rheoliadau 27 a 28 bod rhaid hysbysu'r derbynnydd pan gaiff gwefan ei defnyddio am y tro cyntaf i ddosbarthu gwybodaeth. Mae'n nodi hefyd bod rhaid cynnwys gwybodaeth am y wefan a bod angen hysbysu'r aelodau 3 gwaith am y newid i gyfathrebu ar-lein cyn y gall y Gronfa roi terfyn ar lythyru. Gwelwyd copi drafft o'r llythyr cyntaf a gaiff ei anfon, roedd yn nodi cydymffurfiaeth y Gronfa gyda'r rheoliadau uchod ac yn cyfarfod yr holl ofynion. Mynegodd yr Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) bod cynllun i anfon y llythyr cyntaf cyn diwedd Ebrill 2018, yr ail 6 wythnos yn ddiweddarach a'r trydydd 6 wythnos yn ddiweddarach eto.

3.2 Nodir yn y cylchlythyr os nad yw cyfeiriad e-bost unigolyn ar system y Gronfa, caiff llythyr ei anfon atynt o fewn 10 diwrnod gwaith gydag allwedd weithredu iddynt gadarnhau eu cofrestriad ar y wefan. Fodd bynnag, ar wefan HWA ar ôl mewnbynnu manylion, mae neges yn nodi bydd llythyr yn cael ei anfon o fewn 3-5 diwrnod gwaith. Ar gyfer unigolion sydd gyda'u cyfeiriadau e-bost eisoes ar system y Gronfa, ar y llaw arall, mae'r broses gofrestru'n gyflym a rhwydd iawn.

3.3 Mae'r wefan HWA yn gymharol hawdd i'w darganfod o wefan gyhoeddus newydd y Gronfa (http://www.cronfabensiwngwynedd.cymru neu http://www.gwyneddpensionfund.wales). Gwelwyd bod y wefan yn cynnig yr un manylion â'r hyn a gyflwynwyd mewn datganiadau papur yn ogystal â thabiau megis 'blaen-amcanu buddion' sy'n galluogi aelodau i gyfrifo gwerthoedd pensiynau/lwmp symiau/grantiau marwolaeth damcaniaethol. Yr unig agwedd ddryslyd o'r wefan yw bod rhai llythrennau arbennig megis 'â' ac 'ô' yn cael eu harddangos fel 'ï¿½'.

3.4 Gwelwyd bod rhai manylion personol unigolyn (cyfeiriad, côd post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost) yn gallu cael eu newid gan yr unigolyn yn uniongyrchol ar y wefan HWA. Caiff manylion personol elfennol megis enw eu hechdynnu o'r system Altair sydd yn rhan o'r un brif system a'r wefan. Caiff manylion ariannol aelodau eu diweddaru'n flynyddol neu yn fisol o ddata a dderbynnir gan gyflogwyr.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y broses o drawsnewid o ddatganiadau blynyddol pensiwn papur i ddefnyddio porth Hunan Wasanaeth Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle. Mae'r Uned Bensiynau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cysoni'r wybodaeth ceir ar wefan y gronfa ac ar hysbysiad HWA i nodi mai 10 diwrnod gwaith gymerai i lythyrau allweddi gweithredu gyrraedd.
- Sicrhau bod HWA yn cefnogi llythrennau arbennig i sicrhau cywirdeb ar y wefan.

Atodiad 9

**SYSTEM BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**CYLLID**

**1. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2014 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

1.2 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

1.3 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, archwilio sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwirio bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Asesu statws perfformiad y gwasanaeth ynglŷn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

**2. Prif Ddarganfyddiadau**

2.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau.

2.1.1 Bu newidiadau i strwythur yr Uned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodwyd yr Uwch Swyddog Budd-dal yn Rheolwr Budd-daliadau. Ni phenodwyd Uwch Swyddog Budd-dal fel y cyfryw ond fe roddwyd cyfrifoldebau ychwanegol i eraill yn y tîm.

2.1.2 Detholwyd sampl ar hap o geisiadau newydd gan wirio bod sgôr risg wedi ei gofnodi a'u bod wedi eu cyfrifo'n gywir a'u talu'n amserol. Yn ogystal gwiriwyd sampl o daliadau estynedig a cheisiadau am ôl-ddyddio a gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

2.1.3 Gwiriwyd paramedrau'r system budd-daliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda dogfen yr Adran Waith a Phensiynau 'Housing Benefit Circular - HB A12/2016'. Gwelwyd anghysondebau gyda chyfraddau 'Private Tenant Standard Amenities', cadarnhawyd bod y cyfraddau yn anghywir, maent eisoes wedi derbyn sylw gan y Rheolwr Budd-daliadau.

2.1.4 Gwiriwyd ystadegau perfformiad yr Uned, sef y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd a phrosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau. Mae perfformiad Gwynedd wedi disgyn ers y llynedd (gweler y tabl isod), fodd bynnag, wrth ei gymharu gyda pherfformiad Cymru gyfan a Phrydain mae'n parhau i fod yn dda (gweler y tabl isod).

| <u>Gwynedd</u> | Ffigyrau Blynyddol 2016/17 | Ffigyrau Chwarter 1 2017/18 | Ffigyrau Chwarter 2 2017/18 |
|---|---|---|---|
| **Prosesu cais newydd (dyddiau)** | 16 | 19 | 20 |
| **Prosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (dyddiau)** | 5 | 7 | 7 |

| | **Ffigyrau Chwarter 2 2017/18** | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwynedd** | **Cymru** | **Prydain** |
| **Prosesu cais newydd (dyddiau)** | 20 | 20 | 23 |
| **Prosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (dyddiau)** | 7 | 6 | 8 |

**3. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn system budd-daliadau – adolygiad o'r rheolaethau allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 10

**STORIEL – TREFNIADAU RHEOLI’R CAFFI**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Storiel yw'r enw newydd ar Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor. Roedd y Cyngor wedi gosod cyfleusterau Caffi Storiel ar les er mwyn sicrhau incwm cyson, ond daeth y cytundeb yma i ben yn fuan yn 2018. Yn y cyfamser, penderfynodd yr Adran Economi a Chymuned i gynnal cyfnod arbrofol rhwng Ebrill a Medi 2018 lle bydd yr Adran yn gyfrifol am reoli a rhedeg y caffi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas wedi eu sefydlu er mwyn i Gyngor Gwynedd ymgymryd â’r cyfrifoldeb o reoli a chynnal Caffi Storiel yn briodol ac yn unol â’r rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod trefniadau yn ddigonol o ran staffio, iechyd a diogelwch, trefniadau cyllidebol a chaffael a storio nwyddau a bwydydd.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae’r Adran Economi a Chymuned wedi ceisio sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer y cyfnod arbrofol gan sicrhau fod rheolau a pholisïau’r Cyngor yn cael eu dilyn lle’n briodol. Mae’r elfen anrhagweladwy o reoli busnes er mwyn gwneud elw am gyflwyno heriau newydd i’r Adran a bydd rhaid aros i weld sut mae’r cynllun yn esblygu i ddarganfod os bydd yn llwyddiannus. Er mwyn lliniaru nifer o’r risgiau a hwyluso’r cyfnod arbrofol, penderfynwyd y byddai staff y Siop a’r Amgueddfa yn Storiel yn derbyn cyfrifoldeb am rai o’r agweddau yn ymwneud â’r Caffi.

3.1.1 Mae trefniadau staffio yn eu lle, gyda swydd ddisgrifiadau wedi eu sefydlu ar gyfer dau aelod newydd o staff. Mae’r telerau a’r cytundebau wedi eu cadarnhau, er bod anghysondebau mewn oriau rhyngddynt a’r “Ffurflen Penodiad Newydd -TR139”, ac mae’r staff eisoes wedi cychwyn ar raglen o hyfforddiant. Mae cyllideb wedi ei gosod ar gyfer costau staffio a’r ddau aelod newydd ar gytundeb oriau amrywiol sydd ar sail “rota” a delir drwy gyflwyno taflenni amser. Bydd angen monitro’r gyllideb yn ofalus os oes angen cyflogi staff achlysurol ychwanegol ar adegau prysur.

3.1.2 Darganfuwyd bod angen cadarnhau trefniadau archebu a chaffael nwyddau. Mae natur rhedeg caffi yn golygu y bydd angen i staff y caffi wneud archebion ar fyr rybudd yn aml. Mae’n bosib y gall hyn fod yn anodd i’w weithredu drwy’r system e-gaffael ac mae angen trafod y posibilrwydd o drefn ychwanegol ar gyfer mân archebion brys gyda’r Uned Gaffael, megis defnyddio Llyfr Archeb. Bydd hefyd angen sefydlu trefniant awdurdodi, gan ystyried caniatáu aelodau o staff i godi archebion heb awdurdodiad hyd at drothwy penodol drwy gysylltu yn uniongyrchol â’r cyflenwyr, er mwyn galluogi archebion byr rybudd. Bydd angen sicrhau bod rheolaethau cydadfer priodol mewn lle petai trefniant o’r fath yn cael ei fabwysiadu.

3.1.3 Swyddogion y Siop yn Storiel fydd yn gyfrifol am gyfrif a chyflwyno incwm y Caffi i’r banc, gan gynnwys cwblhau’r ffurflenni priodol ar gyfer yr Uned Incwm. Mae’r swyddogion yma eisoes yn delio gydag arian ac yn bancio incwm y Siop a’r Amgueddfa. Tybir mai hyn yw’r drefn fwyaf addas er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.

3.1.4 Gan nad oes llawer o le i storio nwyddau a bwydydd yn y gegin bydd angen monitro cyson i sicrhau fod nwyddau ar gael pan fydd angen eu defnyddio. Ar y llaw arall mae disgwyl y bydd y diffyg lle yma yn golygu na fydd gormod o nwyddau a bwydydd yn cael eu harchebu ac o bosib eu gwastraffu.

3.1.5 Bydd angen cysylltu â Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Gwynedd i sicrhau fod pob hyfforddiant angenrheidiol yn cael eu cyflawni gan yr aelodau staff newydd yn y caffi. Bydd gofynion ychwanegol oherwydd delio â bwyd a nwyddau glanhau yn ogystal â symud offer trwm. Mae'n hanfodol fod hyfforddiant ar hylendid bwyd a chodi a thrin pwysau yn cael eu cyflawni mor fuan â phosib. Bydd angen i'r staff newydd fod yn ymwybodol o'r gyfraith a threfniadau o ran delio a chemegau drwy dderbyn arweiniad ar reoliadau COSHH[1].

3.1.6 Mae'n hanfodol fod monitro cyson o'r datblygiadau yn cael eu cynnal a bod trafodaeth amserol er mwyn penderfynu os am ymestyn y cyfnod arbrofol neu ail dendro les y caffi. Er nad yw'r cyfnod o 6 mis yn gyfnod hir i roi asesiad manwl o'r llwyddiant, bydd angen trefniadau mewn lle o ran staffio i sicrhau ymrwymiad, neu os penderfynir gosod y caffi ar les unwaith eto bydd angen paratoi ar gyfer y broses dendro er mwyn sicrhau nad oes cyfnod hir o ddiffyg defnydd ac incwm o'r cyfleuster.

## 4. Barn yr Archwiliad

**Tybir ei fod yn gynamserol i roi barn swyddogol gan nad oedd y caffi wedi ail agor yn ystod yr archwiliad. Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi ymrwymo i weithredu ar y camau sydd wedi eu nodi yng nghorff yr adroddiad er mwyn gosod trefniadau cadarn ar gyfer rheoli Caffi Storiel.**

[1] Control of Substances Hazardous to Health

Atodiad 11

**DOC FICTORIA**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Cyngor Gwynedd sydd yn berchen ar Doc Fictoria ac fe reolir y Doc gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon (YHC). Mae cytundeb ffurfiol yn bodoli rhwng Cyngor Gwynedd a YHC yn manylu ar y telerau ariannol yn ogystal â'r holl delerau perthnasol eraill.

1.2 Mae hyd at 20 o angorfeydd ar gyfer ymwelwyr i'r doc. Mae'r nifer angorfeydd ymwelwyr yn amrywio a hyn oherwydd gallai hyd bob cwch fod yn wahanol. Mae bloc toiledau a chawodydd ar gael i ymwelwyr, wi-fi am ddim, gwe-gamerau a chyfleusterau ailgylchu. Mae disel coch hefyd yn cael ei werthu yno.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau mewnol yn bodoli ac yn cael eu gweithredu yn Doc Fictoria. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu archwilio sampl o drafodion ariannol o'r cyfriflyfr i'r datganiadau incwm a gwariant misol a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon yn ogystal â'r cofnodion a gedwir yn y Doc ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Yn ogystal, gwiriwyd y cytundeb sydd rhwng Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon, rheolaeth stoc, trefniadau yswiriant a.y.b.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod rheolaethau priodol yn bodoli yn Noc Fictoria ond bod angen tynhau ar rai agweddau ohonynt.

3.1.1 Mae pob gwerthiant o ddisel yn cael ei dderbynebu drwy ddefnyddio'r llyfr derbynebau pwrpasol sydd wedi ei baratoi gan yr YHC ac sydd wedi ei ragrifo. Os yw cwsmer yn cwblhau taliad gyda cherdyn maent yn derbyn derbynneb o'r peiriant cerdyn, mae'r peiriant cerdyn yn argraffu dwy dderbynneb, sef copi'r cwsmer a chopi sy'n cael ei gadw i gysoni'r incwm. Os yw cwsmer yn talu am drydan neu ymweliad yn y Doc gydag arian parod nid yw pob gwerthiant yn cael ei dderbynebu. Yr eglurhad a rhoddwyd am hyn gan y Doc Feistr oedd diffyg amser.

3.1.2 Nid yw rhestr ffioedd Doc Fictoria sydd wedi cael ei gytuno gan y Cyngor yn gytûn gyda'r rhestr ffioedd sydd ar wefan YHC. Yn benodol, gwelwyd anghysondebau yn y ffioedd trydan. Gweler y tabl isod yn cymharu'r prisiau trydan:

| | **Ffioedd CG** | **Ffioedd YHC** |
|---|---|---|
| **Angorfeydd Blynyddol** | £16/medr +TAW<br>(o dan adolygiad) | £11.93/medr +TAW |
| | | |
| **Ymwelwyr (dyddiol)** | £4.15 (yn cynnwys TAW) | £3.50 (yn cynnwys TAW) |
| **Ymwelwyr (wythnosol)** | £15.60 (yn cynnwys TAW) | £12 (yn cynnwys TAW) |

3.1.3 Mae ffioedd trydan ar gyfer dalwyr safle cwch blynyddol o dan adolygiad ac ar hyn o bryd mae'r ffi yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau trydan y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gwahaniaeth yn y ffi a godir ar ymwelwyr dyddiol ond wrth wirio cofnodion 'Payments Received Sheet' gwelir mai £3 codwyd ar ymwelwyr, nid £3.50 na £4.15.

3.1.4 Ffi'r Cyngor ar gyfer cofrestru diddordeb rhestr aros yw £100 (yn cynnwys TAW) ac mae hyn wedi ei nodi yn glir ar wefan YHC hefyd. Gwelwyd bod symiau amrywiol wedi eu derbyn ac eglurwyd mai £40 oedd y ffi a godwyd yn hanesyddol a dyma sydd wedi bod yn cael ei godi hyd yn ddiweddar. Mae £100 nawr yn cael ei godi ar gyfer cofrestru diddordeb rhestr aros.

3.1.5 Wrth gysoni cofnodion ymwelwyr a gwerthiant disel a thrydan gwelwyd bod llawer o waith a chamau gweinyddol yn rhan o'r broses. Mae cofnod o gychod sydd yn ymweld â'r Doc yn cael ei gadw ar gerdyn 'Cofnodi Ymwelwyr' pwrpasol, mae'r wybodaeth yma yn cael ei drosglwyddo i'r daflen 'Record of Casual Visitors' a cofnodir gwerthiant disel ar daenlen bwrpasol. Mae'r wybodaeth yma wedyn yn cael ei nodi ar daflenni 'Payments Received Sheet', caiff yna eu trosglwyddo i swyddfa YHC. Ymddengys bod y cofnodi yn llafurus ac ar adegau yn cael ei ddyblygu.

3.1.6 Mae'r Pen Swyddog Morwrol a'r Cymhorthydd Gweinyddol yn gwirio'r anfonebau a dderbynnir gyda'r datganiadau gwariant yn fisol ac yn eu cwestiynu petai angen. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nid ydynt wedi bod yn archwilio'r ffigyrau incwm yn fanwl. Nid ydynt yn derbyn dadansoddiadau manwl o'r incwm.

3.1.7 Mae Glanhawraig yn cael ei chyflogi gan YHC i lanhau adeiladau Doc Fictoria ond daeth i'r amlwg ei bod yn cael ei thalu gydag arian parod felly nid oes trefniadau ar gyfer talu treth ac yswiriant gwladol. Os telir gydag arian parod dylai'r gweithiwr gytuno i wneud hyn, dylid hysbysu Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) o'r trefniadau a sicrhau bod y symiau cywir o dreth a chyfraniadau yswiriant gwladol yn cael eu talu. Cafodd hyn ei amlygu yn adroddiad archwilio 'Doc Fictoria' a gyhoeddwyd yn 2007 ond ni weithredwyd ar yr argymhelliad a wnaethpwyd.

3.1.8 Y Doc Feistr yn unig sydd yn archebu nwyddau pan mae'n gweld bod y stoc yn mynd yn isel a gan amlaf byddai'n gwirio'r nwyddau ar ôl eu derbyn. Fodd bynnag, nid oedd ganddo gynllun stoc ac nid oedd gwiriadau stoc yn cael eu cynnal.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Doc Fictoria gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Doc Feistr i sicrhau bod derbynneb yn cael ei roi ar gyfer pob taliad a wnaed gydag arian parod drwy ddefnyddio llyfr derbynebau pwrpasol.
- Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon i sicrhau bod y ffioedd cywir yn cael eu codi ar y cwsmeriaid a diweddaru eu gwefan gyda'r wybodaeth gyfredol.
- Lliflinio'r drefn o gofnodi ymweliadau, gwerthiant disel a thrydan.
- Pen Swyddog Morwrol i dderbyn dadansoddiad o'r incwm fel bod modd ei archwilio ac adnabod camgymeriadau.
- Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon i hysbysu CThM bod y Lanhawraig yn cael ei thalu gydag arian parod a sicrhau bod y symiau cywir o dreth talu wrth ennill (PAYE) ac yswiriant gwladol yn cael ei dalu yn unol â'r gofynion.
- Doc Feistr i lunio cynllun stoc a chynnal gwiriadau stoc yn fisol.

Atodiad 12

**TELEOFAL**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu gwasanaeth Teleofal i drigolion Gwynedd ers 2009. Bu newidiadau yn ddiweddar a phenderfynwyd mewnoli'r gwasanaeth gosod, cynnal a thrwsio cyfarpar, comisiynwyd hyn i gwmni allanol yn flaenorol. Mae gwasanaeth Galw Gofal sef canolfan fonitro 24awr i ymateb i alwadau Teleofal defnyddwyr gwasanaeth Gwynedd yn gweithredu o ddau safle, un yn Llangefni a'r llall ym Mae Colwyn. Mae Cyngor Gwynedd ynghyd â Chyngor Ynys Môn a Chyngor Conwy yn rhan o bartneriaeth ranbarthol, sydd yn cael ei harwain gan Gyngor Conwy. Mae Teleofal yn gweithio drwy ddefnyddio amryw o synwyryddion yn y cartref sydd yn anfon neges uniongyrchol i'r ganolfan fonitro pe byddai argyfwng. Bydd swyddog o'r ganolfan yn siarad gyda'r defnyddiwr drwy uchelseinydd a galw perthynas, ffrind neu'r gwasanaethau argyfwng.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y rheolaethau mewnol sydd ynghlwm â threfniadau darparu a gweinyddu Teleofal yng Ngwynedd yn ddigonol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Cyngor o ddarparu, cynnal a chadw offer Teleofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth a bod hynny'n cael ei wneud cyn gynted â phosib. Yn ogystal, sicrhawyd bod cytundeb priodol mewn lle rhwng y Cyngor a'r darparwr allanol a bod trefniadau casglu incwm y Gwasanaeth yn briodol.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae trefniadau Teleofal newydd yn weithredol ers Ionawr 2018, ble y bu i elfennau o'r gwasanaeth gael eu mewnoli. Mae ceisiadau/archebion am wasanaeth Teleofal nawr yn dod yn uniongyrchol drwy Adran Eiddo'r Cyngor a chaiff y gwaith gosod, cynnal a chadw ei gyflawni gan swyddogion yr Adran. Mae llawer o waith wedi ei wneud er mwyn lliflinio a symleiddio'r broses fel bod modd cyflawni pwrpas y Gwasanaeth Teleofal, sef, "Helpa fi fyw fy mywyd fel yr ydwyf i eisiau drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol".

3.2 Mae gwefan Cyngor Gwynedd wedi ei diweddaru i gynnwys y wybodaeth a'r manylion cyswllt cyfredol. Nid yw'r manylion cyswllt wedi eu diweddaru ar wefan Galw Gofal, maent wedi cael eu hysbysu o hyn ond nid oes gweithrediad wedi bod hyd yma. Darganfuwyd hen bamffledi gyda'r manylion cyswllt anghywir yn nerbynfa Penrallt, hysbyswyd y Gwasanaeth o hyn ac mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith i adnabod pa sefydliadau mae'r pamffledi yma am fod ynddynt gyda'r bwriad o gael y gosodwyr i'w casglu tra yn yr ardal. Er hyn, deallir fod trefniadau mewn lle i sicrhau nad oes galwadau ffôn yn cael eu methu os bydd unrhyw un yn defnyddio gwybodaeth o bamffled sydd bellach ddim yn gyfredol. Mae pamffledi newydd wedi eu creu, bydd y rhain yn cael eu dyrannu unwaith mae'r ffi wythnosol wedi ei gytuno.

3.3 Mae gosodwyr yr offer yn mynd a chopi papur o gytundeb Teleofal i gartref y defnyddwyr. Yn ogystal, gofynna'r gosodwyr i'r defnyddwyr arwyddo 'ap' sydd ganddynt ar eu ffonau, fel cadarnhad eu bod yn derbyn yr amodau a'r telerau. Unwaith mae'r defnyddiwr wedi llofnodi, caiff y llofnod ei hanfon yn awtomatig i System TF Eiddo sef y system a ddefnyddir i gofnodi a disgrifio'r "job". Fodd bynnag, ar hyn o bryd, llun yn unig o'r llofnod sydd i'w weld ar y system. Eglurwyd bod yr Adran Eiddo yn gweithio ar gael brawddeg ychwanegol ar yr 'ap' ble mae'r defnyddwyr yn arwyddo sy'n nodi eu bod yn cytuno ac yn derbyn y telerau, byddai hyn wedyn yn ymddangos gyda'r llofnod ar System TF.

3.4 Nid oes cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) wedi ei sefydlu rhwng y Gwasanaeth Teleofal a'r Adran Eiddo ar hyn o bryd. Bydd y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Technoleg Cynorthwyol Gwynedd yn ystyried y mesurau cyflawni wrth lunio'r CLG, bydd y rhain yn unol â phwrpas y gwasanaeth.

3.5 Nid oes cofnodion stoc ffurfiol. Mae stoc Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn wedi ei drosglwyddo i storfa Gyngor Gwynedd ond ni etifeddwyd cofnodion ganddynt. Mae offer newydd yn cael ei archebu, mae offer yn cael ei ddychwelyd ac mae offer yn gadael y storfa i'w gael ei osod. Mae ystyriaeth wedi ei roi i system sganio cod bar fuasai wedi cysylltu gyda Galw Gofal ond mae angen trafodaethau pellach cyn symud ymlaen.

3.6 Mae swyddogion wedi eu penodi i ymgymryd â'r gwaith gosod offer Teleofal, gydag un ohonynt wedi trosglwyddo ar delerau TUPE o Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn. Er bod y rheolwr wedi dechrau'r broses o dderbyn dadleniadau DBS ar gyfer y swyddogion yma ym mis Ionawr 2018, gwelwyd erbyn hyn mai un yn unig sydd wedi derbyn dadleniad tra bod y swyddog arall yn parhau i fod yn y broses o'i dderbyn. Mae bwriad cael swyddogion eraill o'r Adran Eiddo i gynorthwyo gyda'r gwaith newid batris mewn offer a.y.b., mae'r swyddogion yma wedi derbyn neu yn y broses o adnewyddu eu dadleniadau. Nid oedd pob swydd wedi eu hadnabod yn y System Swyddi fel rhai sydd angen dadleniad DBS hyd nes yn ddiweddar, felly gall hyn fod wedi cyfrannu tuag at yr oediad o ddilyn i fyny statws dadleniad y swyddog.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Teleofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau bod gosodwyr yn casglu hen bamffledi Teleofal.
- Llunio poster gyda manylion cyswllt Teleofal a'i roi yn y sefydliadau yma gan nad yw'r pamffled newydd yn barod eto.
- Trafod ymhellach gyda gweinyddwyr System TF i geisio cael geiriad ar yr 'ap' fel cadarnhad bod y defnyddwyr yn cytuno gydag amodau a thelerau'r cytundeb.
- Llunio cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Gwasanaeth Teleofal a'r Adran Eiddo gan sicrhau bod mesurau cyflawni yn cael eu sefydlu a'u cytuno.
- Sefydlu cynllun rheoli stoc.
- Sicrhau bod pob swyddog sy'n ymgymryd â'r gwaith yn derbyn dadleniad DBS.

Atodiad 13

**TAI Â CHEFNOGAETH**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae naw Tŷ Cefnogol yng Ngwynedd, sydd yn cefnogi cleientiaid dros 18 mlwydd oed gydag anableddau dysgu i fyw bywyd lled-annibynnol, gyda rhai tai yn gartref i hyd at 4 cleient.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch sampl o 'Dai Gyda Chefnogaeth' yn briodol ac yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor wrth ganiatáu'r cleientiaid i fyw'n lled-annibynnol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth sampl o'r tai.

3. **Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymwelwyd â thri tŷ yn ystod yr archwiliad, sef Bryn Afon, Dyffryn Ardudwy a 106 Lôn Abererch, Pwllheli, sydd dan reolaeth Rheolwr Tai â Chefnogaeth, a 4 Bryn Rhos, Caernarfon, sydd dan reolaeth y Rheolwr Gofal Cofrestredig. Yn gyffredinol, gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Gwelwyd nad oedd profion tân yn cael eu cynnal yn amserol yn 4 Bryn Rhos, ac nad oedd cofnod o ymweliadau a phrofion 'Snowdonia Fire Protection' yn 106 Lôn Abererch. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth iddynt ymweld yn rheolaidd. Yn ogystal, gwelwyd mai Cynllun Rheoli Tân dyddiedig 2008 oedd yn y tai. Anfonwyd y fersiwn gyfredol, ddyddiedig 2017 i'w sylw yn dilyn yr ymweliadau.

3.1.2 Gwelwyd nad oedd asesiadau risg yn cael eu harwyddo a'u dyddio yn dilyn adolygiadau, gan roi'r argraff nad oedd adolygiad wedi ei gynnal ers dyddiad creu'r asesiad. Derbyniwyd cadarnhad y caiff hyn ei wneud o hyn ymlaen.

3.1.3 Wrth adrodd ar ddamweiniau, nid oes copi o ffurflenni HS11 yn cael eu cadw ar gyfer pob tŷ. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth fod y gwreiddiol yn cael ei anfon at yr Uned Iechyd a Diogelwch, gan adael y tai heb gofnod. Mynegwyd y bydd copi yn cael ei Gadw yn y tai o hyn ymlaen.

3.1.4 Gwelwyd nad oedd gwiriadau stoc meddyginiaeth yn cael eu cynnal ym Mryn Afon nac yn 106 Lôn Abererch, er y dylid eu cynnal yn wythnosol. Yn yr un modd, nid yw tymheredd yr ystafell yn cael ei fonitro yn 4 Bryn Rhos. Cadarnhaodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig y byddai cofnod yn cael ei gadw o hyn ymlaen.

3.1.5 Yn gyffredinol, gwelwyd nad oedd hyfforddiant y Gweithwyr Cefnogol yn gyfredol, gyda 'cymwysterau' rhai wedi dod i ben, ac eraill heb eu hyfforddi mewn meysydd penodol o gwbl. Gwiriwyd cofnodion 15 Gweithiwr Cefnogol, 5 ym mhob tŷ. Gwelwyd mai ond 5 ohonynt oedd gyda hyfforddiant meddyginiaeth a hyfforddiant tân cyfredol. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth ei fod yn anodd cael llefydd ar gyrsiau hyfforddiant tân, gyda'r llefydd yn llenwi yn sydyn.

3.1.6 Nid yw ceisiadau imprest yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd. Roedd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth eisoes yn ymwybodol o hyn a cadarnhaodd ei bod yn ymdrechu i'w cyflwyno yn fwy aml. Gwelwyd fod cyfrifon 106 Lôn Abererch a Bryn Afon mewn dyled o £640 a £5,000 yn ôl eu trefn ar ddechrau mis Mawrth 2018.

3.1.7 Gwelwyd fod cyfraniadau cleientiaid Bryn Afon tuag at gostau bwyd y tŷ yn cael eu talu allan o'r cyfrif imprest, cyn wedyn cael eu had-dalu i'r cyfrif o gyfrifon banc y cleientiaid unigol. Cadarnhaodd y Swyddog Rheoli Cyllid ac Asedau Cleientau fod y drefn yma wedi ei sefydlu gan fod lleoliad y tŷ yn ei wneud yn anymarferol i'r Gweithwyr Cefnogol ymweld â Swyddfeydd y Cyngor ar gyfer casglu arian parod, fel y drefn mewn nifer o dai eraill. Ychwanegodd bod trafodaethau wedi eu cynnal yn y gorffennol ar gyfer agor cyfrif banc personol i bob tŷ, gyda chyfraniadau bwyd yn cael eu talu yn syth iddo. Gall y gweithwyr wedyn ymweld ag unrhyw beiriant arian ar gyfer ei dynnu allan. Nid yn unig buasai hyn wedi hwyluso'r broses i'r Gweithwyr Cefnogol, gan ryddhau mwy o'u hamser ar gyfer gofalu am y cleientiaid, ond y buasai'n golygu fod pob tŷ yn gyson yn eu trefniadau. Cafodd y syniad ei gefnogi gan Reolwyr y tai, fodd bynnag, er trafodaethau a chyfarfodydd gyda'r banc, ni weithredwyd ymhellach. Mynegodd y Swyddog Rheoli Cyllid ac Asedau Cleientau ei awydd i ail-gydio yn y syniad. Cytunodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig i'w drafod gyda'r Rheolwr Darparu a Datblygol Anabledd Dysgu.

3.1.8 Gwelwyd fod gorwario sylweddol eleni ar gyllideb lwfans teithio Lôn Abererch, ble mae tanwario yn erbyn y tai eraill. Darganfuwyd fod ceisiadau costau teithio'r Rheolwr Tai â Chefnogaeth a gyflwynwyd drwy hunanwasanaeth i gyd wedi eu talu o god gwariant Lôn Abererch, er bod pob siwrnai i dai eraill. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Cefnogol nad oedd gan hunanwasanaeth y gallu ar hyn o bryd i rannu costau. Cadarnhaodd y Cymhorthydd Cyfrifeg eu bod yn hapus i'r Rheolwr barhau i gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth, ac y byddent yn rhannu'r gost rhwng y tai drwy drosglwyddiadau yn y cyfriflyfr.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau 'Tai Gyda Chefnogaeth' gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r Rheolwyr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau fod profion tan yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn amserol.
- Dyddio ac arwyddo adolygiadau asesiadau risg.
- Gwiriadau stoc meddyginiaeth yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn wythnosol.
- Sicrhau fod tymheredd yr ystafelloedd ble cedwir meddyginiaeth yn cael ei fonitro a'i gofnodi yn ddyddiol.
- Sicrhau fod hyfforddiant Gweithwyr Cefnogol yn gyfredol, gan drefnu hyfforddiant tân a meddyginiaeth yn benodol ar gyfer y dyfodol agos.
- Sicrhau fod ceisiadau imprest yn cael eu cyflwyno yn aml, ac nad ydynt am swm uwch na 2/3 lefel y cyfrif.
- Ystyried y buddiannau o sefydlu trefn newydd ar gyfer derbyn cyfraniadau y cleientiaid tuag at gostau bwyd y tai.

Atodiad 14

**Y FRONDEG**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Cartref preswyl sy'n darparu gofal i hyd at naw o oedolion sydd ag anableddau dysgu yw Cartref Y Frondeg, Caernarfon. Gan fod Rheolwr newydd yn y cartref ers Ionawr 2018, penderfynwyd na roddir barn ar yr archwiliad, dim ond camau gweithredu. Cynhelir archwiliad llawn ar y cartref yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Y Frondeg yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Derbyniwyd copi drafft o'r datganiad o ddiben gan y Rheolwr. Roedd yn cyfarfod gofynion AGGCC o'u hadroddiad (Ionawr 2018) a'r rhan fwyaf o'r gofynion ar gyfer datganiad o ddiben. Nid oedd gwybodaeth wedi'i gynnwys am bolisi 'rheoli ymddygiad' y cartref. Doedd dim gwybodaeth ychwaith am y trefniadau a wneir i ryddhau ymrwymiad person cofrestredig o dan reoliad 12 (4)(b) o Reoliadau Cartrefi Gofal Cymru (2002).

3.2 Gwiriwyd cynlluniau gofal sampl o 3 preswylydd a gwelwyd bod un wedi ei ddiweddaru ond nad oedd cynlluniau y ddau arall yn gyfredol. Roedd y cynlluniau yn gynhwysfawr ond angen eu diweddaru. Mynegodd y Rheolwr bod staff y cartref yn y broses o ddiweddaru cynlluniau gofal pob preswylydd.

3.3 Ni welwyd cytundeb rhwng y preswylydd a'r Cyngor ar gyfer y sampl o 3 preswylydd a ddetholwyd.

3.4 Gwelwyd tystysgrifau hyfforddiant o fewn ffeiliau unigol aelodau o staff. Roedd y rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ond bod rhai wedi dod i ben. Cytunodd y Rheolwr buasai taenlen i fonitro dyddiadau hyfforddiant y staff yn ddefnyddiol ac yn sicrhau bod hyfforddiant gweithwyr y cartref yn gyfredol.

3.5 Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod yn gweithio tuag at gymhwyster QCF lefel 5. Mae'r lefel yma o gymhwyster perthnasol yn ofynnol i fod yn rheolwr cofrestredig felly bydd 'dim Rheolwr cofrestredig' yn fethiant i gydymffurfio gyda AGGCC nes y bydd y cymhwyster wedi'i ennill.

3.6 Roedd diffyg goruchwyliaeth yn bryder gan AGGCC a gwelwyd bod diffyg wedi bod yn y maes dros rai misoedd. Roedd y Rheolwr wedi llwyddo i gynnal sesiynau goruchwylio gyda 13 aelod o staff ar adeg yr ymweliad ac roedd sesiynau goruchwyliaeth ar y gweill i weddill y staff.

3.7 Ni welwyd ffurflenni 'Eitemau Personol' ar gyfer y preswylwyr. Roedd y Rheolwr wedi trefnu i gyfarfod â Rheolwr cartref Tan Y Marian i gael gweld enghreifftiau o ddogfennau cyffelyb.

3.8 Mae bysellbad ar ddrws y swyddfa ac ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd codau'r ystafelloedd yma wedi eu hysgrifennu a'u rhoi ar y drws fel bod modd i unrhyw un gael mynediad. Mynegodd y Rheolwr nad oedd eisiau cael drws ei swyddfa wedi cloi yn y dyfodol i'r staff gael mynediad at gynlluniau gofal a pholisïau a.y.b.

3.9 Gwiriwyd dogfennau tân y cartref cedwir yn y bocs glas gan gynnwys y Llyfr Log Tân. Nid oedd cofnodion clir bod y profion yn cael eu cynnal yn unol â'r gofyn. Gwelwyd bod rhai cofnodion heb eu cyflawni gyda llofnod ond dim dyddiad a.y.b.

3.10 Gwelwyd asesiadau risg ar gyfer y gegin oedd wedi eu hadolygu ym mis Ionawr gan y Cogydd. Ni welwyd asesiadau risg cyffredinol y cartref. O'r sampl o 3 preswylydd, gwelwyd nad oedd asesiadau risg ar gyfer 2 ohonynt yn gyfredol. Mynegodd y Rheolwr bod cynllun ar y gweill i ddiweddaru'r rhain yn ogystal ag ymweliad i'r cartref gan Swyddog Iechyd a Diogelwch i sicrhau safonau.

3.11 Gwelwyd bod 1 aelod o staff heb gymhwyster o gwbl a bod 5 ble roedd eu hyfforddiant yn hŷn na 3 mlynedd neu yn dod i ben felly angen ei adnewyddu. Gwelwyd bod pob aelod staff o'r sampl wedi mynychu hyfforddiant diogelu ond roedd rhai angen eu hadnewyddu. O ran DBS, roeddent yn gyfredol ar gyfer pob aelod o staff o'r sampl oni bai am un. Gwnaethpwyd y Rheolwr yn ymwybodol o'r achos a chytunodd i weithredu.

3.12 Gwelwyd taflen o lofnodion a llofnodion byrion staff ag awdurdod i arwyddo dogfennau meddyginiaeth. Holwyd y Swyddog Mewn Gofal ynglŷn â phrofion cymhwysedd a dywedodd eu bod yn cael eu cynnal weithiau, nid oedd yn ymddangos bod trefniant blynyddol fel y disgwylir; gwelwyd mai dau aelod o staff oedd gyda chofnod o brawf cymhwysedd yn eu ffeiliau. Gwelwyd bod copi o'r Polisi Meddyginiaeth ar gael i staff yn yr ystafell feddyginiaeth ond dim ond 4 o'r sawl oedd yn gweinyddu meddyginiaeth oedd wedi arwyddo i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisi. Roedd bysellbad wedi ei osod ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth, fodd bynnag mae côd y bysellbad wedi ei gofnodi a'i roi ar flaen y drws fel bod modd i unrhyw un cael mynediad. Gwiriwyd cofnodion tymheredd yr oergell feddyginiaeth a gwelwyd bod cofnodion cyson a chywir yn cael eu cadw. Er hyn, roedd y thermomedr yn arddangos bod tymheredd yr oergell yn 8.6°C yn ystod yr ymweliad, sydd uwch ben y trothwy uchaf o 8°C nodir ym Mholisi Feddyginiaeth y Cyngor.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**Tybir ei fod yn gynamserol i roi barn swyddogol ar yr archwiliad gan fod y cartref yn y broses o weithredu ar argymhellion adroddiad y AGGCC a amlinellodd ddiffygion cydymffurfio a bydd archwiliad llawn yn cael ei gynnal ym mlwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau i ddiweddaru cynlluniau gofal preswylwyr a sicrhau eu bod yn cynnwys cytundebau, asesiadau risg a rhestrau eiddo.
- Llunio taenlen o hyfforddiant staff a'i chadw'n gyfredol i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn yr hyfforddiant cywir a bod diweddariadau cymwysterau yn digwydd yn amserol.
- Creu asesiadau risg ar gyfer risgiau rhesymol y cartref a'r preswylwyr a'u diweddaru fel yr angen neu yn flynyddol ar y lleiaf.
- Parhau i oruchwylio staff a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal pob 2 fis.

- Sicrhau bod archebion yn cael eu creu a'u cofnodi'n amserol a bod anfonebau sy'n cyrraedd y cartref yn cael eu dyddio gyda stamp neu law.
- Creu rhestr eiddo ar gyfer y cartref a'i adolygu'n flynyddol.
- Sicrhau nad oes gan bawb fynediad i'r ystafell feddyginiaeth drwy rannu côd y drws â'r unigolion sydd ei angen yn unig.
- Sicrhau bod y polisïau sydd ar gael i staff y cartref yn rai cyfredol.
- Gwirio statws dadleniadau DBS pob aelod o staff.
- Creu ceisiadau imprest yn fisol a sicrhau bod y derbynebau yn ddilys.
- Sicrhau bod y cofnodion o staff sydd a hawl i lofnodi/gweinyddu meddyginiaeth yn gyfredol.
- Cynnal profion cymhwysedd meddyginiaeth yn flynyddol a sicrhau bod y staff perthnasol yn darllen ac arwyddo'r polisi Meddyginiaeth.
- Sicrhau bod y datganiad o ddiben terfynol yn cynnwys gwybodaeth am bolisi rheoli ymddygiad y Cartref ac am y trefniadau a wneir i ryddhau ymrwymiad person cofrestredig o dan reoliad 12 (4)(b).
- Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei dilyn i weithredu ar yr argymhellion a dderbyniwyd gan AGGCC yn eu hadroddiad dyddiedig Ionawr 2018.

Atodiad 15

**TREFNIADAU AR GYFER PLANT YN GADAEL GOFAL**
**PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Trefniant a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 yw ’Pan Fydda i’n Barod’, lle mae person ifanc mewn gofal maeth yn parhau i fyw gyda'u cyn-ofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed. Yn dechnegol, mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', mae'r gofalwr yn dod yn landlord y person ifanc. Sefydlwyd y cynllun er mwyn paratoi awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau newydd o dan drefniadau byw ôl-18 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer plant mewn gofal sy’n dymuno parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o bobl ifanc gan sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chanllaw Arfer Da Pan Fydda i’n Barod, gan baratoi cynlluniau priodol, megis ‘Cynlluniau Llwybr’ a 'Pan Fydda i'n Barod' ar eu cyfer.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ar amser yr archwiliad, roedd chwe pherson ifanc ar y cynllun ’Pan Fydda i’n Barod’, gyda dau arall ar drothwy cael eu sefydlu arno. Gwiriwyd system WCCIS[2] er mwyn cadarnhau bod trywydd o gefnogaeth gan y Cyngor i baratoi pobol ifanc am drefniadau byw ôl-18, a hynny yn dechrau cyn i’r person droi yn 16 oed. Wrth ymgymryd â’r archwiliad, mae’n bwysig cymryd i ystyriaeth amgylchiadau amrywiol rhai o’r bobl ifanc, a’r effaith gaiff y rhain ar drefniadau'r Gwasanaeth.

3.1.1 Disgwylir i’r Cyngor lunio cynllun llwybr i bob plentyn sy’n derbyn gofal cyn iddynt gael eu cyfeirio at y tîm ôl-16, er mwyn asesu eu hanghenion ac i gynorthwyo’r person ifanc i symud o fod mewn gofal i fod yn oedolyn. O gofnodion ac atodiadau system WCCIS, darganfuwyd nad oedd asesiad a chynllun llwybr bob amser mewn lle erbyn pen-blwydd y person ifanc yn 16, a gall safon y cynlluniau amrywio. Fodd bynnag, yn yr achosion yma, roedd cofnodion ymweliadau neu gyfarfodydd ‘Adolygiad Plentyn / Person Ifanc sy’n Derbyn Gofal’ yn datgan bod dymuniadau byw'r dyfodol wedi cael eu trafod. Mae’r Tîm ôl-16 yn awyddus i newid eu trefniadau fan hyn, drwy adnabod y pobl ifanc hynny sy’n nesáu at 16 oed a bod yn fwy rhagweithiol yn eu trefniadau fel bod cynllun llwybr yn ei le pan maent yn trosglwyddo at y tîm yn hytrach na disgwyl am gyfeiriad gan y Gweithiwr Cymdeithasol. Caiff y cynlluniau llwybr eu hadolygu mewn adolygiadau statudol 6 misol, a gwelwyd o’r cofnodion bod y rhan helaeth o’r cyfarfodydd yn digwydd o fewn yr amserlen yma.

[2] Welsh Community Care Information System

3.1.2 Mynegir Canllaw Arfer Da 'Pan Fydda i'n Barod': *"Unwaith ei bod hi'n amlwg fod y person ifanc a'u gofalwr maeth yn dymuno cychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', bydd angen i chi drefnu cyfarfodydd i gynllunio manylion y trefniant. Mae'n arfer da i gadw y rhain ar wahân i gyfarfodydd adolygu LAC, gan fod gan adolygiadau LAC swyddogaeth ehangach."* Darganfuwyd fod cyfarfodydd er mwyn trafod trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu cynnal, ond nid oes cofnodion penodol o'r cyfarfodydd yma yn cael eu cadw ar WCCIS.

3.1.3 Un o'r gwersi sydd wedi ei ddysgu yw'r angen i godi ymwybyddiaeth rhieni maeth am oblygiadau ariannol 'Pan Fydda i'n Barod' yn gynt, er mwyn sicrhau ymrwymiad cynnar i'r trefniadau neu i rhoi rhagor o amser ar gyfer cynllunio am drefniadau amgen. Mae'r Gwasanaeth wedi adnabod yr angen i gynnal sesiynau hyfforddiant i rieni maeth, a phwysleisio iddynt goblygiadau ariannol 'Pan Fyddai i'n Barod'. Mae ansicrwydd yn gallu cael effaith difrifol ar bobl ifanc a mae'n hanfodol bod trefniadau cadarn wedi eu cytuno cyn gynted â phosib.

3.1.4 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol yn unol â'i gyfrifoldeb i weithredu fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal. Bwriad y Panel yw cadw trosolwg o les a buddiannau plant mewn gofal. Mae aelodaeth o'r Panel yn cynnwys yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol, rhieni maeth, Pencampwr Pobl Ifanc ac aelod wedi ei ddewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Addysg.

3.1.5 Gwiriwyd cofnodion cyfarfodydd y Panel, a Strategaeth Rhiantu Corfforaethol Gwynedd a gyflwynwyd i'r Panel yn y cyfarfod 23/10/17, a gwelwyd eu bod yn briodol. Yn ogystal, derbyniwyd manylion hyfforddiant a roddwyd i 30 o Aelodau'r Cyngor ar y 10/01/18 ar eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol. Bydd sesiwn hyfforddiant arall yn cael ei gynnal i'r sawl na fynychodd yr hyfforddiant yma.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau plant yn gadael gofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cadw cofnodion o drafodaethau cyfarfodydd Pan Fydda i'n Barod ar WCCIS.

Atodiad 16

**TARGEDAU AILGYLCHU**
**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae targedau wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru i annog Awdurdodau Lleol i gynyddu ailgylchu er mwyn lleihau faint o wastraff pydradwy caiff ei anfon i dirlenwi, lleihau'r effaith  nwyon 'tŷ gwydr' ar yr amgylchedd, lleihau ein hôl troed carbon ac arbed arian drwy ail ddefnyddio gwastraff unai fel deunyddiau neu i greu egni.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i Gyngor Gwynedd gyrraedd targedau ailgylchu statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Awdurdodau Cymru angen sicrhau bod 64% o'u gwastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2020 a 70% erbyn 2025. Mae Gwynedd hefyd angen sicrhau bod uchafswm o 16,978(t) yn cael ei dirlenwi eleni, gyda'r lwfans yn lleihau i 15,143(t) yn 2020. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r data sy'n cael ei gyflwyno ar y targedau yng Ngwynedd a gwirio'r trefniadau monitro sydd mewn lle.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd fod trefniadau addas yn bodoli ar y cyfan er mwyn ceisio sicrhau bod Gwynedd yn cyflawni eu targedau. Mae'r tîm yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol i drigolion Gwynedd ond mae llwyddiant yn ddibynnol ar newid agwedd a meddylfryd rhai o'r trigolion. Mae canran uchel o wastraff gweddilliol yn parhau i gynnwys eitemau all eu hailgylchu ac felly mae ymrwymiad yr holl drigolion yn hanfodol yn sgil targedau gynyddol heriol a'r cosbau ariannol.

3.1.1 Mae gwybodaeth am y gwasanaethau ailgylchu yn cael eu rannu drwy nifer o wahanol ffynonellau, yn electroneg ac ar bapur. Yn ychwanegol i'r casgliadau 'kerbside', mae Canolfannau Ailgylchu Gwynedd a gwasanaeth casgliadau swmpus yn adnoddau defnyddiol i'r cyhoedd ond nid oes gymaint o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau yma.

3.1.2 Cyhoeddwyd erthyglau yn y wasg a drwy bapur 'Newyddion Gwynedd' ynglŷn â'r cosbau ariannol gall Gwynedd eu hwynebu. Defnyddir y rhain fel rhesymeg tu ôl i newid trefniadau casglu gwastraff gweddilliol i bob tair wythnos ac ehangu'r gwasanaeth ailgylchu. Fodd bynnag efallai nad oes digon o'r elfen yma yn cael cyhoeddusrwydd gan olygu fod y cyhoedd yn parhau i weld y newidiadau fel toriadau.

3.1.3 Anfonir data i system 'Waste Data Flow' ar y sail bod 52,300 bin olwyn 240 litr yng Ngwynedd. Nid oes bas data o'r holl gyfarpar yng Ngwynedd gan eu bod wedi eu dosbarthu ers amser maith. O ganlyniad defnyddir profiad a gwybodaeth gyffredinol y gweithwyr er mwyn sicrhau fod gwasanaeth yn cael ei ddarparu lle mae'r angen.

3.1.4 Mae'r gweithlu yn ceisio monitro beth yw cynnwys biniau gwastraff gweddilliol ac yn hysbysu eu Harweinwyr os oes modd cynyddu faint o wastraff gaiff ei ailgylchu. Mae Swyddogion Ailgylchu yna'n ceisio cysylltu â'r eiddo i gynnig cymorth a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth ailgylchu a'r effeithiau negyddol o dirlenwi. Fodd bynnag, rhan fechan o'u dyletswyddau yw hyn ac mae llawer o'u gwaith a chynlluniau yn anelu at newid meddylfryd plant a phobl at y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth wedi adnabod y bydd angen ymgyrchu pellach a herio trigolion sydd ddim yn cydymffurfio er mwyn cyrraedd targedau.

3.1.5 Mae cadw o fewn y lwfans tirlenwi yn gynyddol heriol i Wynedd, yn enwedig gan fod y lwfans yn lleihau dros amser. Mae targedau incwm yr adran yn eu hannog i geisio denu cwsmeriaid casglu gwastraff masnachol er mwyn cynyddu incwm. Mae canran ailgylchu y busnesau sy'n derbyn y gwasanaeth yn parhau i gynyddu, ond mae'r gwastraff gweddilliol a gesglir yn cyfrannu'n negyddol at berfformiad tirlenwi Gwynedd. Gall cyflwyniad LDT (Landfill Disposal Tax) gan y Llywodraeth ym mis Ebrill 2018 roi pwysau cynyddol ar Wynedd i leihau faint o wastraff gaiff ei dirlenwi er mwyn osgoi ffioedd ychwanegol am ei waredu.

3.1.6 Mae Gwynedd yn ystyried gwaredu â Banciau Ailgylchu o safleoedd cymunedol. Mae gwelliannau yn y gwasanaeth ailgylchu 'kerbside' yn ogystal â'r risg o gamddefnydd o'r banciau yn golygu eu bod yn anarferedig. Buasai gwaredu'r gwasanaeth yn creu arbedion cyllidebol i'r adran drwy osgoi'r angen i gyflogi cwmnïau preifat i waredu'r cynnwys. Cyflwynwyd newidiadau i'r system 'cartgylchu' ar gyfer 2018 sydd yn galluogi'r cyhoedd i waredu gwastraff ychwanegol drwy ailgylchu yn hytrach na gwaredu yn y bin gwyrdd. Mae cynlluniau ar y gweill er mwyn ehangu'r gwasanaeth ymhellach gyda'r nod o atal eitemau all eu hailgylchu rhag mynd i'r biniau gwyrdd. Mae gwasanaethau eraill ar gael i'r cyhoedd megis casgliadau swmpus am gost rhesymol a fuasai'n cyfrannu at y targedau ailgylchu yn ogystal â'r targed incwm. Mae angen ystyried cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth yma yn ogystal â'r Canolfannau Ailgylchu gan y byddai'n darbwyllo unigolion rhag 'tipio slei bach'.

3.1.7 Cyflwynwyd ffi ar gyfer gwasanaeth casglu gwastraff gardd yn 2017 er mwyn ceisio cynyddu incwm i'r adran. O ganlyniad, roedd gostyngiad o 2000 (t) yn y gwastraff gardd a gasglwyd yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn o fewn y gostyngiad o 3% a amcangyfrifwyd, ond maent yn ffyddiog y bydd cynnydd dros amser.

3.1.8 Mae casgliadau wythnosol gwastraff bwyd yn ceisio annog trigolion i beidio gwaredu bwyd yn y bin gwyrdd. Buasai cynnydd mewn ailgylchu gwastraff bwyd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y targed ailgylchu a lleihau'r posibilrwydd o'r biniau gwyrdd yn drewi a denu anifeiliaid pla. Mae Gwynedd wedi ymrwymo i gytundeb 15 mlynedd gyda cwmni Biogen yn safle GwyriAD yn Llwyn Isaf. Fel rhan o'r gytundeb mae Gwynedd angen darparu lleiafswm o wastraff bwyd (GMT) i'w brosesu. Mae'r swm yn heriol iawn ac i gyfrannu ato mae Gwynedd wedi sicrhau cytundeb i dderbyn gwastraff bwyd a gesglir o Ynys Môn a rhannau o Gonwy.

3.1.9 Mae costau goramser uchel iawn ymysg yr adran er mwyn cyflawni'r holl wasanaethau, delio â chasgliadau wedi eu methu a gwasanaethu'r canolfannau ailgylchu dros y penwythnos. Buasai lleihau'r casgliadau sydd eisoes 'wedi eu methu' yn cael effaith negyddol iawn ar enw'r Cyngor felly mae ystyriaeth yn cael ei roi i newid telerau'r gweithwyr canolfannau ailgylchu.

3.1.10 Mae system FFOS wedi ei mabwysiadu yn ddiweddar ac yn cynorthwyo Gwynedd i leihau'r amser disgwyl rhwng aelod o'r cyhoedd yn gwneud cais am offer/gwasanaeth ac yn derbyn y gwasanaeth/offer hwnnw. Mae'r adran yn anelu i ddarparu offer/gwasanaeth o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn galluogi'r cyhoedd i gyfrannu at y targedau ailgylchu cyn gynted â phosib. Derbyniwyd sampl o geisiadau oddi ar FFOS a gwelwyd bod 58% o geisiadau yn cael eu cyflawni o fewn y 10 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r ystadegau yma'n gamarweiniol, gan mai unwaith yr wythnos yn unig y rhedir adroddiad oddi ar y system, a'r dyddiad caiff y manylion eu mewnbynnu i'r system yw'r dyddiad cwblhau. Mae oediad sylweddol ar adegau cyn i'r manylion gael eu derbyn gan yr aelodau staff er mwyn eu mewnbynnu i'r system FFOS.

**4.** **<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Gellir datgan sicrwydd rhannol o'r trefniadau a rheolaethau mewn lle er mwyn i Wynedd gyflawni eu Targedau Ailgylchu, ond mae agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Adran wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth o gynlluniau megis casgliadau swmpus er mwyn cynyddu incwm ac atal tipio slei bach.
- Adolygu Trefniadau Goramser gweithwyr y Canolfannau Ailgylchu.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Canolfannau Ailgylchu er mwyn atal tipio slei bach a achosion o wastraff/eitemau mawr yn cael eu gwaredu yn y biniau gwyrdd.
- Parhau gydag ymgyrchoedd i annog trigolion a cwsmeriaid gwastraff masnachol i gynyddu faint o wastraff maent yn ailgylchu a lleihau'r cyfanswm o wastraff gweddilliol.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **10 MAI 2018** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2017/18** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

**1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL**

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

**2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS**

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol yn datgan:

*"Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol o ran cynghori'r sefydliad bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol, sy'n gwybyddu'r datganiad llywodraethu, yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2017/18 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2017/18, yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

3.2 **Ystyriaethau**

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

**4. GWAITH ARCHWILIO**

**Cynllun Archwilio**

4.1 Roedd 58 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2017/18. Cafodd yr holl aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2018, sy'n cynrychioli **100%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2016/17 o 95.83%, yn erbyn targed o 95%.

4.3 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2017/18 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.4 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

4.5 Cafodd pob gweithrediad cytunedig a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.

4.6 O'r 58 aseiniad yng nghynllun archwilio 2017/18 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| Categori Barn | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| A | 10 |
| B | 32 |
| C | 8 |
| CH | 1 |
| Dim Categori | 7 |
| **Cyfanswm** | **58** |

4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2017/18 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'Ch', derbyniodd 82.35% ohonynt farn 'A' neu 'B'. Mae'r ffigwr ychydig yn is na'r ffigwr cyfatebol o 85.71% ar gyfer 2016/17.

4.8 Un archwiliad a dderbyniodd farn 'Ch' sef Manddaliadau.

4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.

4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2017/18. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|
| 1 Ebrill 2017 – 30 Mehefin 2017 | 13 Gorffennaf 2017 |
| 1 Gorffennaf 2017 – 15 Medi 2017 | 28 Medi 2017 |
| 18 Medi 2017 – 17 Tachwedd 2017 | 30 Tachwedd 2017 |
| 20 Tachwedd 2017 – 26 Ionawr2018 | 8 Chwefror 2018 |
| 29 Ionawr 2018 – 31 Mawrth 2018 | 10 Mai 2018 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

4.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.12 Allan o'r 223 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2016/17, roedd gweithrediad derbyniol ar **90.09%** ohonynt erbyn 31 Mawrth 2018. Nid oedd un o'r gweithrediadau bellach yn berthnasol, felly mae'r ystadegau yn seiliedig ar nifer o 222 o weithrediadau cytunedig, h.y. gweithrediad derbyniol ar 200 allan o 222.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.13 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda'i waith o gryfhau trefniadau'r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Mae pob archwiliad sydd wedi derbyn barn 'C' neu 'Ch' yn cael sylw yno, gyda swyddogion yn cael eu gwahodd yno i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa.

**5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL**

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio gymhwyster CIPFA llawn. Mae tri Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster AAT.

5.2 Ers 1 Ebrill 2017, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos lleihad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **944** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 i **707** diwrnod am yr un cyfnod yn 2017/18, lleihad o **237**. Roedd hyn o ganlyniad i absenoldeb Arweinydd Archwilio, a cynnydd sylweddol yn y dyddiau ar gyfer hyfforddiant proffesiynol a hyfforddiant swydd.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 31 diwrnod o gymharu â 58 o ddiwrnodau yn 2016/17.
- Bu newid yn y modd o gynnal archwiliadau dilyniant gyda phob gweithrediad cytunedig yn derbyn sylw gan Archwilio Mewnol – roedd y dyddiau ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant yn 39 diwrnod yn 2017/18 o gymharu â 45 diwrnod yn 2016/17 ble cynhaliwyd 12 archwiliad dilyniant yn unig.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2017/18 fel a ganlyn:

| Disgrifiad Mesurydd | Perfformiad 2016/17 | Uchelgais 2017/18 | Canlyniadau 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 95.83% | 95% | **100%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 85.71% | 65% | **82.69%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 223 o weithrediadau i liniaru risgiau a amlygwyd yn ystod 2016/17. (200 allan o 222 wedi eu gweithredu'n dderbyniol). | Mesur Newydd | 85% | **90.09%** |

**7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2018/19**

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2018/19 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2018. Mae'r cynllun diweddaraf, yn cynnwys addasiadau ers y Pwyllgor, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Dengys fesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 isod:

| Mesur | Uchelgais 2018/19 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 95% | Cynnal |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 65% | Cynnal |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 163 o weithrediadau i liniaru risgiau a amlygwyd yn ystod 2017/18. | 85% | Cynnal |

**8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL**

8.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

**9. ARGYMHELLIAD**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2017/18.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol - Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr | **C** | 30 Tachwedd 2017 |
| Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **Dim Categori** | |
| System Integredig Dysgu a Datblygu | **C** | 10 Mai 2018 |
| Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau | **C** | 10 Mai 2018 |
| Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | **B** | 13 Gorffennaf 2017 |
| Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | **C** | 8 Chwefror 2018 |
| Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | **Dim Categori** | |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Gwisg Ysgol | **B** | 30 Tachwedd 2018 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | **A** | 30 Tachwedd 2018 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **A** | 30 Tachwedd 2018 |
| Grant Addysg Ôl-16 | **Dim Categori** | 8 Chwefror 2018 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol Bro Lleu | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol Pentreuchaf | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol Abercaseg | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol Dyffryn Ardudwy | **C** | 30 Tachwedd 2017 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol O M Edwards | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| Iechyd a Diogelwch - Ysgol Llanystumdwy | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| **Ysgolion** | | |
| Incwm Cinio Ysgol | **Dim Categori** | 10 Mai 2018 |
| Ysgolion - Cyffredinol | **Dim Categori** | |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Hylendid Bwyd | **B** | 10 Mai 2018 |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| Manddaliadau | **CH** | 10 Mai 2018 |
| Cynlluniau Adeiladu Ysgolion - Ysgol Glancegin | **B** | 10 Mai 2018 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|---|
| Tocynnau Mantais Bws | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| Incwm Meysydd Parcio | **B** | 10 Mai 2018 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| Hyfforddi Aelodau Newydd | **B** | 28 Medi 2017 |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| Trefniadau Adennill Dyledion | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Praeseptau | **A** | 13 Gorffennaf 2017 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| Cronfa Bensiwn - - Datganiadau Blynyddol | **A** | 10 Mai 2018 |
| Grantiau Marwolaeth | **A** | 28 Medi 2017 |
| **Refeniw** | | |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 10 Mai 2018 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| Storiel - Trefniadau Rheoli'r Caffi | **Dim Categori** | 10 Mai 2018 |
| Ymweliad Di-Rybudd | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| **Hamdden** | | |
| Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth | **B** | 28 Medi 2017 |
| Canolfan Tennis Arfon | **B** | 28 Medi 2017 |
| Canolfan Hamdden y Pafiliwn | **B** | 28 Medi 2017 |
| Pwll Nofio Bro Ffestiniog | **B** | 30 Tachwedd 2018 |
| Canolfan Hamdden Glan Wnion | **B** | 28 Medi 2017 |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Doc Fictoria | **B** | 10 Mai 2018 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| Grant Cefnogi Pobl | **A** | 30 Tachwedd 2018 |
| **Oedolion** | | |
| Teleofal | **B** | 10 Mai 2018 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Plas Maesincla, Caernarfon | **B** | 28 Medi 2017 |
| Plas Hafan, Nefyn | **A** | 28 Medi 2017 |
| Plas Ogwen, Bethesda | **C** | 28 Medi 2017 |
| Tai â Chefnogaeth | **C** | 10 Mai 2018 |
| Tan y Marian | **C** | 28 Medi 2017 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|---|
| Y Frondeg | **Dim Categori** | 10 Mai 2018 |
| **Rhent a Rheolaeth Tai** | | |
| Rhestr Aros Tai | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | **A** | 8 Chwefror 2018 |
| Grant Cynnig Gofal Plant | **A** | 8 Chwefror 2018 |
| Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal | **B** | 10 Mai 2018 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Depos | **B** | 8 Chwefror 2018 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Targedau Ailgylchu | **B** | 10 Mai 2018 |
| Casglu Gwastraff Gardd | **B** | 30 Tachwedd 2017 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| Statws Cyflogaeth | **B** | 10 Mai 2018 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2017/18:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **10** |
| B | **32** |
| C | **8** |
| CH | **1** |
| Dim Categori | **7** |
| **Cyfanswm** | **58** |

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| **1,626** | **Cyfanswm Dyddiau** | **1,504** |
| 216 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 257 |
| **1,411** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,247** |
| | Llai: | |
| 14 | Gwyliau Arbennig | 10 |
| 29 | Salwch | 47 |
| 5 | Hyfforddiant Proffesiynol | 82 |
| 62 | Hyfforddiant Swydd | 88 |
| **1,301** | **Dyddiau ar gael** | **1,020** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 7 | Apwyntiadau Meddygol | 5 |
| 26 | Cofnodi a Rheoli Amser | 20 |
| 94 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 69 |
| 1 | Cyflwyno Hyfforddiant | 7 |
| 2 | Cynnal Cyfweliadau | 5 |
| 24 | Gwaith Cefndirol | 26 |
| 17 | Gweinyddiaeth ayb. | 14 |
| 22 | Prosiect iGwynedd | 4 |
| 4 | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 4 |
| 105 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 107 |
| 2 | Rheoli Absenoldebau | 2 |
| 8 | Trafferthion TG | 11 |
| 5 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 5 |
| 0 | Tasgau Cyd-weithio Gogledd Cymru | 4 |
| 0 | Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd â Archwilwyr Allanol | 1 |
| **984** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **736** |
| 40 | Gwaith APCE | 29 |
| **944** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **707** |

**<u>Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:</u>**

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| 810 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 616 |
| 3 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 8 |
| 0 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 0 |
| 29 | Cynghori | 12 |
| 45 | Gwaith dilyniant | 39 |
| 58 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 31 |
| **944** | | **707** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **20.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Trais yn y Cartref | **15.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | **4.00** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **20.00** |
| | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | **6.00** |
| | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol | **15.00** |
| | Y Fenter Twyll Genedlaethol | **40.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | **10.00** |
| | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **15.00** |
| | Grant Addysg Ôl-16 | **3.00** |
| | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd | **25.00** |
| | Mynediad i Ysgolion | **15.00** |
| | Statws Cyflogaeth IR35 | **30.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Prosiect TRAC | **15.00** |
| **GwE** | | |
| | GwE - Statws Cyflogaeth IR35 | **30.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Ysgolion - Cyffredinol | **10.00** |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Difa Pla | **12.00** |
| | Trefniadau Trwyddedu | **8.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Cynnal a Chadw Eiddo | **15.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Trafnidiaeth Cyhoeddus | **12.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Diogelwch Systemau TG | **12.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Rhyngwynebau gyda'r Cyfriflyfr Ariannol | **20.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | Cyfraniadau gan Gyflogwyr | **25.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Refeniw** | | |
| | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |
| | System Treth Cyngor - One Digital Portal | **10.00** |
| | Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor | **10.00** |
| | Trethi Busnes - Rhestr Brisio | **6.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Gwaredu Cyfarpar TG | **8.00** |
| | Trefniadau Adfer Trychineb TG | **10.00** |
| | Rheolaeth Trwyddedu Meddalwedd | **10.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cronfa'r Degwm | **5.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Canolfannau Hamdden | **40.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| | Ymweliadau Di-Rybudd - Casglu Incwm | **8.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu | **15.00** |
| | Bwrdd Twf Gogledd Cymru | **15.00** |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Trefniadau ar Alwad a Brys | **15.00** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol | **8.00** |
| **Busnes** | | |
| | Trefniadau Comisiynu | **30.00** |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| | Grant Cefnogi Pobl | **15.00** |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| | Gofal Cartref - Costau Teithio | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Plas y Don | **12.00** |
| | Plas Hedd | **12.00** |
| | Hafod Mawddach | **12.00** |
| | Cefn Rodyn | **12.00** |
| **Tai Sector Breifat** | | |
| | Grant Cyfleusterau i'r Anabl | **15.00** |
| | Cynllun Troi Tai'n Gartrefi | **12.00** |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Grantiau | **20.00** |
| | Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014 | **20.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Tanciau Disel a Rheoli Disel | **15.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Gorfodaeth Stryd | **12.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Rheoli Llifogydd | **15.00** |
| | | **766.00** |

**Atodiad 4**

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | ***1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol*** | A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio? | Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf. | Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr – Refeniw a Risg | 31/03/2018 | Nid yw'r cynllun gwerthsuo 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodarethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid. |
| 02 | ***1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol | Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG). | Rheolwr Archwilio | 31/12/2017 | Mae'r asesiad allanol bellach ar y gweill gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin. |
| 03 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd? | Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. | Rheolwr Archwilio | 08/02/2018 | Bydd canlyniadau'r asesiad allanol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu unwaith y bydd adroddiad wedi ei derbyn. |

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 04 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf? | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol. |
| 05 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau? | Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Gwneir hyn yn sgil adroddiad yr aseswr allanol. |
| 06 | ***1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd? | Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol. | Rheolwr Archwilio a'r Uwch Reolwr – Refeniw a Risg | Fel yr angen | Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol. |

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN | CYNNYDD |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| 07 | ***2450 – barn Gyffredinol*** | A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:<br>a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau?<br>b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?<br>Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol |